Dechreuwyr a Chymwysedigion o Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ôl y Maes Pwnc

Dadansoddiad o ddechreuwyr a chymwysedigion o Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ystod y cyfnod o bedair blynedd o 2002/03 hyd 2005/06 yn ôl y maes pwnc, modd a'r lefel astudio

Cynnwys

Pennod		Tudalen
	Cyflwyniad	5
	Crynodeb	7
1	Gorolwg	10
	yn ôl Maes Pwnc	14
2	Meddygaeth a Deintyddiaeth	22
3	Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth	26
4	Gwyddorau Biolegol	31
	yn ôl Prif Bwnc	35
5	Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	41
6	Gwyddorau Ffisegol	45
	yn ôl Prif Bwnc	49
7	Gwyddorau Mathemategol	55
	yn ôl Prif Bwnc	59
8	Cyfrifiadureg	65
	yn ôl Prif Bwnc	69
9	Peirianneg a Thechnoleg	75
	yn ôl Prif Bwnc	79
10	Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio	87
11	Astudiaethau Cymdeithasol	91
12	Y Gyfraith	96
13	Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth	101
14	Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	106
	yn ôl Prif Bwnc	110
15	Ieithoedd	116
	yn ôl Prif Bwnc	121
16	Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	129
17	Celfyddydau Creadigol a Dylunio	133
18	Addysg	137
19	Cyfunol	141
20	Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn arwain at Statws Athro Cymwysedig	145
21	Cymharu dechreuwyr a chymwysedigion y Gwyddorau Ffisegol, Gwyddorau Mathemategol, Peirianneg a Thechnoleg ac Ieithoedd mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru a Lloegr	149
Atodiad		
A	Diffiniadau Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU/HESA)	153
B	Diffiniadau Data	158
C	Data Cydraddoldebau a Chyfrwng Cymraeg	160

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno dadansoddiad o ddechreuwyr a chymwysedigion o gyrsiau addysg uwch mewn Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) yng Nghymru yn ystod cyfnod o bedair blynedd o 2002/03 hyd 2005/06 yn ôl y maes pwnc, modd a'r lefel astudio. Ffynhonnell y data yw Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (AYAU).

Prif bwrpas yr astudiaeth hon yw darparu gwybodaeth fesurol am nifer y dechreuwyr a'r cymwysedigion o gyrsiau addysg uwch mewn SAUau yng Nghymru mewn pedair ar bymtheg o feysydd pwnc eang.

Ceir ugain o benodau, pob un yn dilyn yr un gosodiad er mwyn rhwyddineb. Mae'r cyntaf yn olwg cyffredinol ar yr holl ddechreuwyr a chymwysedigion o SAUau yng Nghymru yn ystod y cyfnod. Cynhwysir dadansoddiad pellach yn ôl y prif bwnc yn y penodau am y meysydd pwnc canlynol:

- Gwyddorau Biolegol
- Gwyddorau Ffisegol
- Gwyddorau Mathemategol
- Cyfrifiadureg
- Peirianneg a Thechnoleg
- Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth
- Ieithoedd

Comisiynodd CCAUC (HEFCW) adroddiad yn ddiweddar i "Pynciau o Bwysigrwydd Ehangach yng Nghymru" ac o ganlyniad mae wedi neilltuo peth cyllid i gynnal mentrau sy'n cael eu harwain gan alw i gefnogi'r pynciau hyn. Er mwyn sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei gefnogi yn y modd mwyaf cost effeithiol, cytunwyd y byddai CCAUC yn cydweithio â chydweithwyr yn CCAULI (HEFCE) i ddechrau, gyda'r bwriad o ymestyn eu mentrau presennol gyda'r cyrff proffesiynol i Gymru. Ar hyn o bryd y pynciau hyn yw Ffiseg, Cemeg, Peirianneg a Mathemateg.

Cynhwysir pennod bellach yn yr adroddiad hwn sy'n cymharu dechreuwyr a chymwysedigion y Gwyddorau Ffisegol, Gwyddorau Mathemategol, Peirianneg a Thechnoleg ac Ieithoedd mewn SAUau yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'r bennod hon yn dilyn yr un drefn â'r penodau eraill. Mae'r meysydd pwnc a gynhwysir yn y bennod hon yn ehangach na'r rheiny a ystyrir yn Bynciau o Bwysigrwydd Ehangach yng Nghymru. Mae hyn oherwydd bod y ffigurau ar gyfer y pynciau hyn yng Nghymru yn isel felly gall y canrannau amrywio'n fawr, ond mae'r ffigurau yn Lloegr yn uwch ac yn fwy sefydlog. Dewiswyd meysydd pwnc y Gwyddorau Ffisegol, Gwyddorau Mathemategol a Pheirianneg a Thechnoleg er mwyn darparu cymhariaeth ystyrlon. Cynhwysir Ieithoedd yn y bennod hon hefyd gan fod y ddarpariaeth Ieithoedd Tramor Modern hefyd yn bynciol.

Mae dadansoddi nifer y dechreuwyr bob blwyddyn yn hytrach na chyfanswm y cofrestriadau yn helpu i roi darlun cliriach o'r galw ym mhob maes pwnc. Mae dadansoddi'r cymwysedigion yn helpu i roi darlun o'r nifer a gymhwysodd ym mhob maes pwnc ac sy'n ymuno â'r gweithlu. Darparwyd nifer y cyfwerthoedd ag amser-llawn (CALloedd) ar gyfer dechreuwyr rhan-amser gan fod hyn yn mesur lefelau gweithgarwch.

Yn yr adroddiad hwn, mae dechreuwr yn unigolyn sy'n cofrestru ac sydd ym mlwyddyn gyntaf y cwrs. Mae'n bosibl i fyfyrwyr gofrestru ar fwy nag un cwrs ar y tro. Lle bo

dechreuwyr neu gymwysedigion yn astudio cyrsiau sy'n rhychwantu mwy nag un maes pwnc, yna mae'r data wedi'i rannu ar draws y pynciau gan ddefnyddio dosraniad pynciol e.e. byddai myfyriwr sy'n dechrau neu'n cymhwyso mewn cwrs Mathemateg a Chyfrifiaduraeth yn cael ei gyfrif fel 0.5 mewn Mathemateg a 0.5 mewn Cyfrifiaduraeth. Ar ben hynny, wrth ystyried CALloedd, byddai hanner y CALl yn cael ei gyfrif ym mhob pwnc. Disgrifir dosraniad pynciol yn Atodiad A. Trwy gydol y ddogfen hon, wrth gyfeirio at ddechreuwyr, cymwysedigion neu fyfyrwyr, cyfanswm y gyfran o ddechreuwyr, cymwysedigion a'r myfyrwyr ym mhob pwnc y cyfeirir ato ac nid yw o reidrwydd yn hafal i'r un nifer o unigolion.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar newidiadau yn niferoedd y dechreuwyr a'r cymwysedigion dros gyfnod o bedair blynedd. Er bod y data'n adlewyrchu gofynion newidiol myfyrwyr, mae'n bwysig cofio bod nifer y lleoedd mewn rhai pynciau, megis Meddygaeth a Deintyddiaeth a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC), yn cael eu rheoli gan gwotâu'r llywodraeth. Gall y modd y mae sefydliadau yn dewis codio eu gweithgareddau effeithio ar newidiadau hefyd.

Wrth ystyried newidiadau ar rai lefelau o'r dadansoddiad, mae'r data ar gyfer Cymru yn isel ac felly gall y canrannau amrywio'n fawr. Dylid bod yn ofalus wrth ddod i gasgliadau am y newidiadau hyn. Hefyd gall mentrau bychain sydd â nifer uchel o fyfyrwyr e.e. y cynllun ysgoloriaeth cysylltiol ym Mhrifysgol Morgannwg, effeithio'n fawr ar y ffigurau. Am fwy o wybodaeth am y cynllun ysgoloriaeth cysylltiol gweler Atodiad B. Dechreuwyr a chymwysedigion israddedig rhan-amser eraill yw'r meysydd sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan fentrau fel hyn.

Ym mhob tabl, mynegwyd gwerthoedd sy'n llai na 5 fel *. Mae gwerthoedd sy'n fwy na 4 sydd wedi'u tynnu er mwyn peidio ag ailgyfrif gwerthoedd sy'n llai na 5 wedi'u mynegi fel +.

Nid yw o fewn cwmpas yr astudiaeth hon i ddarparu dadansoddiad cydraddoldeb manwl ar gyfer dechreuwyr a chymwysedigion yn ôl meysydd pwnc, ond ceir y wybodaeth ganlynol yn Atodiad C:

- Dechreuwyr a chymwysedigion yn ôl y prif faes pwnc, modd a phob un o'r llinynnau cydraddoldeb canlynol; rhyw, ethnigrwydd, anabledd ac oedran ar gyfer 2005/06.
- Dechreuwyr a chymwysedigion sydd wedi astudio'r cwrs i gyd neu ran ohono trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2005/06, yn ôl y prif faes pwnc.

Crynodeb

Dechreuwyr

Mewn SAUau yng Nghymru dros gyfnod o bedair blynedd o 2002/03 hyd 2005/06:

- Dechreuwyr llawn-amser wedi cynyddu o 4 y cant
- Dechreuwyr llawn-amser ôl-raddedig wedi cynydyddu o 10 y cant
- Dechreuwyr gradd cyntaf llawn-amser wedi cynyddu o 6 y cant
- Dechreuwyr gradd cyntaf llawn amser eraill wedi cynyddu o 25 y cant

- Cynyddodd nifer y dechreuwyr llawn amser fwy na 15 y cant yn y meysydd pwnc canlynol:
  - Gwyddorau Mathemategol (29 y cant)
  - Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio (24 y cant)
  - Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth (22 y cant)
  - Addysg (22 y cant)
  - Gwyddorau Biolegol(18 y cant)

- Gostyngodd nifer y dechreuwyr llawn amser fwy na 15 y cant yn y meysydd pwnc canlynol:
  - Cyfrifiadureg (26 y cant)
  - Cyfunol (24 y cant)
  - Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig (17 y cant)

- Dechreuwyr rhan-amser wedi cynyddu o 8 y cant
- Dechreuwyr rhan-amser ôl-raddedig wedi cynyddu o 6 y cant
- Dechreuwyr rhan-amser gradd cyntaf wedi cynyddu o 29 y cant
- Dechreuwyr rhan-amser is-raddedigion eraill wedi cynyddu o 6 y cant

- Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser fwy na 15 y cant yn y meysydd pwnc canlynol:
  - Meddygaeth a Deintyddiaeth (84 y cant)
  - Gwyddorau Biolegol (66 y cant)
  - Gwyddorau Mathemategol(47 y cant – between 2003/04 and 2005/06)
  - Creative Arts and Design (45 y cant)
  - Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth(37 y cant)
  - Gwyddorau Ffisegol (27 y cant)
  - Addysg (22 y cant)
  - Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio (21 y cant)
  - Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth (18 y cant)

- Gostyngodd nifer y dechreuwyr rhan-amser fwy na 15 y cant yn y meysydd pwnc canlynol:
  - Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol (36 y cant)
  - Y Gyfraith (18 y cant)
  - Cyfrifiadureg (17 y cant)
  - Cyfunol (17 y cant)

- Gostyngodd y gweithgarwch rhan-amser (CALloedd) 12 y cant
- Gostyngodd CALloedd ôl-raddedig rhan-amser 10 y cant
- Cynyddodd CALloedd gradd cyntaf rhan-amser 31 y cant
- Gostyngodd CALloedd israddedig rhan-amser eraill 20 y cant

- Gwelwyd newid mawr yn y gweithgarwch rhan-amser ym mwyafrif y meysydd pwnc yn ystod y cyfnod. Y meysydd pwnc a welodd y cynnydd mwyaf oedd:
  - Gwyddorau Ffisegol (88 y cant)
  - Meddygaeth a Deintyddiaeth (81 y cant)
  - Gwyddorau Mathemategol (63 y cant – rhwng 2003/04 a 2005/06)
  - Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio (40 y cant)

- Y meysydd pwnc a welodd o gostyngiadau mwyaf o ran gweithgarwch rhan-amser oedd:
  - Cyfunol (56 y cant)
  - Cyfrifiadureg (38 y cant)
  - Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth (35 y cant)

Dangosodd cymhariaeth rhwng pedwar maes pwnc mewn SAUau yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod pedair blynedd*:

- Yng Nghymru, roedd nifer y dechreuwyr yn y Gwyddorau Ffisegol, fel cyfran o'r holl ddechreuwyr, yr un fath ar ddechrau a diwedd y cyfnod, sef 3.2 y cant. Yn Lloegr, cododd y gyfran hon 0.3 pwynt canran i gyrraedd 2.9 y cant.
- Roedd dechreuwyr yn y Gwyddorau Mathemategol, fel cyfran o'r holl ddechreuwyr, ar lefel debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod yn y ddwy wlad; 0.6 y cant yng Nghymru ac 1.2 y cant yn Lloegr.
- Yng Nghymru, disgynnodd nifer y dechreuwyr Peirianneg a Thechnoleg, fel cyfran o'r holl ddechreuwyr, 0.2 pwynt canran i 6.2 y cant. Yn Lloegr, disgynnodd y gyfran hon o 0.2 pwynt canran i 5.0 y cant.
- Yng Nghymru, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Ieithoedd, fel cyfran o'r holl ddechreuwyr, 0.9 pwynt canran i 3.3 y cant. Yn Lloegr roedd y gyfran hon yn 3 y cant ar ddechrau a diwedd y cyfnod.

*cyfnod o dair blynedd o 2003/04 hyd 2005/06 ar gyfer y Gwyddorau Mathemategol.

Cymwysedigion

Mewn SAUau yng Nghymru dros gyfnod o bedair blynedd o 2002/03 hyd 2005/06:

- Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser 12 y cant.
- Cynyddodd nifer y cymwysedigion ôl-raddedig llawn amser 17 y cant.
- Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser gradd cyntaf 13 y cant.
- Gostyngodd nifer o cymwysedigion ôl-raddedig eraill 7 y cant.

- Cynyddodd y niferoedd a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n llawn amser fwy na 15 y cant yn y meysydd pwnc canlynol:
  - Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol (25 y cant)
  - Peirianneg a Thechnoleg (23 y cant)

  - Meddygaeth a Deintyddiaeth (21 y cant)
  - Gwyddorau Biolegol (21 y cant)
  - Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth (19 y cant)
  - Gwyddorau Ffisegol (18 y cant)

- Gostyngodd y niferoedd a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n llawn amser fwy na 15 y cant yn y meysydd pwnc canlynol:
  - Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig (20 y cant)
  - Cyfunol (16 y cant)

- Cynyddodd gymwysedigion rhan-amser 56 y cant*.
- Roedd cymwysedigion rhan-amser yn cynrychioli 42 y cant o'r holl gymwysedigion yn 2005/06, sef cynnydd o 8 pwynt canran ers 2002/03.
- Cynyddodd cymwysedigion ôl-raddedig rhan-amser 27 y cant.
- Cynyddodd cymwysedigion gradd cyntaf rhan-amser 14 y cant.
- Cynyddodd cymwysedigion israddedig rhan-amser eraill 78 y cant*.

- Gwelwyd cynnydd mawr yn y niferoedd a gymhwysodd ar ôl astudio'n rhan-amser ym mwyafrif y pynciau. Y meysydd pwnc a welodd gynnydd o fwy na 100 y cant oedd:
  - Gwyddorau Ffisegol (308 y cant)
  - Ieithoedd (298 y cant)*
  - Astudiaethau Cymdeithasol (184 y cant)*
  - Celfyddydau Creadigol a Dylunio (173 y cant)
  - Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol (140 y cant)
  - Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth (104 y cant)*

Y ddau faes pwnc a welodd gostyngiad yn nifer y cymwysedigion rhan-amser oedd:
  - Cyfunol (33 y cant)
  - HCA (SAC) (17 y cant)

Dangosodd cymhariaeth rhwng pedwar maes pwnc mewn SAUau yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod pedair blynedd**:

- Yng Nghymru, cododd nifer y rheiny a gymhwysodd yn y Gwyddorau Ffisegol, fel cyfran o'r holl gymwysedigion, 0.2 pwynt canran i 3.5 y cant. Yn Lloegr roedd y gyfran hon ar lefel debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod, sef 3.1 y cant yn 2005/06.
- Roedd nifer y rheiny a gymhwysodd yn y Gwyddorau Mathemategol, fel cyfran o'r holl gymwysedigion, yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod yn y ddwy wlad; 0.6 y cant yng Nghymru ac 1.2 y cant yn Lloegr.
- Roedd nifer y rheiny a gymhwysodd mewn Peirianneg a Thechnoleg, fel cyfran o'r holl gymwysedigion, yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod yn y ddwy wlad; 6.6 y cant yng Nghymru ac 5.5 y cant yn Lloegr.
- Yng Nghymru, disgynnodd gyfran y rheiny a gymhwysodd mewn Ieithoedd, fel cyfran o'r holl gymwysedigion, 0.4 pwynt canran i 0.8 y cant. Yn Lloegr roedd y gyfran hon yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod, sef 2.3 y cant.

*o ganlyniad i'r niferoedd uchel a gymhwysodd ar ôl astudio'n rhan-amser ar gyfer cyrsiau israddedig eraill o statws cwsg neu ysgoloriaeth gysylltiol (gweler y bennod Gorolwg)

.

**cyfnod o dair blynedd o 2003/04 hyd 2005/06 ar gyfer y Gwyddorau Mathemategol.

1. Gorolwg

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 32,205 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 4 y cant ar nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser 8 y cant i gyrraedd 30,578 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 49 y cant o'r holl ddechreuwyr yn 2005/06, sef cynnydd o un pwynt canran ers 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio cyrsiau rhan-amser gynyddu, gostyngodd y gweithgarwch rhan-amser ar gyfer dechreuwyr. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi gostwng 12 y cant i gyrraedd 8,717 yn 2005/06 a bod y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser wedi disgyn 35 y cant yn 2002/03 i 29 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr llawn amser gynyddu o 4 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 7,521 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef cynnydd 10 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 22,135 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef cynnydd 6 y cant ers 2002/03. Gostyngodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser o chwarter i 2,549 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar eu cyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda'r dechreuwyr llawn amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr rhan-amser yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Yn 2005/06, dechreuodd 5,640 o ddechreuwyr ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser, sef cynnydd o 6 y cant ers 2002/03 a chynyddodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau gradd cyntaf rhan-amser o bron i draean i gyrraedd 2,899. Cynyddodd nifer y rheiny a oedd yn dechrau ar astudiaethau israddedig rhan-amser 6 y cant i 22,039 erbyn 2005/06. Roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill.

Er i nifer y dechreuwyr rhan-amser gynyddu ar bob lefel, bu gostyngiad yn y niferoedd a astudiodd ar lefel ôl-raddedig ac israddedigion eraill. Disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel ôl-raddedig o ddegfed a nifer yr israddedigion eraill o bumed. Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel gradd cyntaf o bron i draean. Disgynnodd y CALl cyfartalog i ddechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 47 y cant i 40 y cant ac ar lefel israddedigion eraill o 31 y cant i 23 y cant. Roedd y CALl cyfartalog ar gyfer gradd cyntaf yn 48 y cant yn 2005/06, a oedd yn debyg i'r ganran ar ddechrau'r cyfnod.

Tabl 1a: Dechreuwyr ar gyrsiau AU mewn SAUau yng Nghymru yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	6,830	20,804	3,402	31,036
	2003/04	6,930	21,729	3,276	31,935
	2004/05	7,406	21,621	2,599	31,626
	2005/06	7,521	22,135	2,549	32,205
	Newid net	691	1,331	-853	1,169
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	5,339	2,256	20,730	28,325
	2003/04	5,398	3,299	20,188	28,885
	2004/05	5,219	2,811	21,683	29,713
	2005/06	5,640	2,899	22,039	30,578
	Newid net	301	643	1,309	2,253
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	2,493	1,069	6,338	9,901
	2003/04	2,390	1,603	5,771	9,764
	2004/05	2,267	1,256	5,545	9,068
	2005/06	2,234	1,397	5,086	8,717
	Newid net	-259	328	-1,252	-1,184













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, cafodd 24,064 o fyfyrwyr gymhwyster drwy astudio'n llawn amser, sef cynnydd o 12 y cant ar y nifer yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n llawn amser o 56 y cant i 17,643 yn 2005/06. Esbonnir y cynnydd mawr hwn yn hwyrach yn yr adran.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 42 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu 8 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 34 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser gynyddu 12 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser a gafodd cymwysterau ôl-raddedig 17 y cant i gyrraedd 5,749 yn 2005/06; cynyddodd nifer y rheiny a enillodd graddau cyntaf 13 y cant i 16,253; a disgynnodd nifer y rheiny a enillodd gymhwyster israddedig arall 7 y cant i 2,062 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a enillwyd yn dilyn astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser 56 y cant yn ystod y cyfnod; roedd hyn o ganlyniad i gynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion israddedig eraill yn bennaf, a gododd 78 y cant yn ystod y cyfnod i 12,263 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 27 y cant i 3,879 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 14 y cant i 1,501. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd o astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau israddedig eraill.

Mae'r cynnydd mawr yn nifer y cymwysterau israddedig eraill o ganlyniad i'r nifer fawr o gymwysterau a gafwyd o statws cwsg, y cafodd rai ohonynt eu codio'n ôl-weithredol ac sydd felly'n cael eu hadrodd mewn blwyddyn wahanol i'r flwyddyn y cawsant eu hennill. Mae'r cynnydd mawr hefyd yn adlewyrchu cynnydd yn y nifer a dderbyniwyd ar y cynllun ysgoloriaeth cysylltiol ym Mhrifysgol Morgannwg (gweler tabl 1c).

Y meysydd pwnc yr effeithiwyd arnynt yn arbennig gan y materion hyn oedd pynciau a phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth, Astudiaethau Cymdeithasol, Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth ac Ieithoedd.

Tabl 1b: Cymwysedigion o gyrsiau AU mewn SAUau yng Nghymru yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	4,914	14,395	2,229	21,538
	2003/04	4,879	15,032	2,540	22,451
	2004/05	5,852	16,169	3,344	25,365
	2005/06	5,749	16,253	2,062	24,064
	Newid net	835	1,858	-167	2,526
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	3,060	1,320	6,903	11,283
	2003/04	2,869	1,334	6,573	10,776
	2004/05	3,668	1,521	9,679	14,868
	2005/06	3,879	1,501	12,263	17,643
	Newid net	819	181	5,360	6,360













Tabl 1c: Cymwysedigion israddedig eraill rhan-amser mewn SAUau yng Nghymru

	Cymwysedigion Rhan-Amser Eraill			
	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Modd o astudio gweithredol	5,920	5,643	7,136	7,143
Statws Segur	401	+	1,400	2,449
Ysgoloriaethau Cysylltiol ym Mhrifysgol Morgannwg	582	*	1,143	2,671
Cyfanswm	6,903	6,573	9,679	12,263
% Statws Segur	6%	14%	14%	20%
% Ysgoloriaethau Cysylltiol ym Mhrifysgol Morgannwg	8%	0%	12%	22%

Gorolwg yn ôl maes pwnc

Dechreuwyr llawn amser

Y meysydd pwnc a oedd â'r gyfran fwyaf o ddechreuwyr llawn amser mewn SAUau yng Nghymru oedd Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth, Gwyddorau Biolegol, Celfyddydau Creadigol a Dylunio a Phynciau a Phroffesiynau'n Gysylltiedig â Meddygaeth, a oedd yn cynrychioli ychydig dros ddau bumed o'r dechreuwyr llawn amser. Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth oedd y maes pwnc a oedd yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o ddechreuwyr llawn amser, gan gynrychioli 14 y cant bob blwyddyn, heblaw yn 2003/04 pan oedd y ffigur hwn yn 15 y cant. Roedd pob un o'r tri o feysydd pwnc eraill yn cynrychioli rhwng 8 ac 11 y cant yn unrhyw flwyddyn.

Y meysydd pwnc â'r cyfrannau lleiaf oedd Gwyddorau Mathemategol a Chyfunol a oedd yn cynrychioli llai nag un y cant o'r dechreuwyr llawn amser bob blwyddyn.

Tabl 1d: Dechreuwyr ar gyrsiau AU llawn amser mewn SAUau yng Nghymru yn ôl Maes Pwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Llawn-amser				Dechreuwyr 2005/06 fel % o'r Cyfanswm	Newid % 2002/03 i 2005/06
Maes Pwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06		
Meddygaeth a Deintyddiaeth	489	489	540	563	2%	15%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth	2,751	2,646	2,730	2,680	8%	-3%
Gwyddorau Biolegol	2,925	3,023	3,247	3,458	11%	18%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	402	385	366	332	1%	-17%
Gwyddorau Ffisegol	1,502	1,597	1,443	1,554	5%	3%
Gwyddorau Mathemategol	236	294	299	305	1%	29%
Cyfrifiadureg	1,720	1,609	1,292	1,275	4%	-26%
Peirianneg a Thechnoleg	2,105	2,346	2,162	2,143	7%	2%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	468	495	579	579	2%	24%
Astudiaethau Cymdeithasol	2,463	2,512	2,377	2,503	8%	2%
Y Gyfraith	1,659	1,826	1,782	1,698	5%	2%
Astudiaeth Busnes a Gweinyddiaeth	4,411	4,718	4,446	4,478	14%	2%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	829	885	849	1,010	3%	22%
Ieithoedd	1,854	1,854	2,040	1,951	6%	5%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	1,375	1,359	1,545	1,517	5%	10%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	2,766	2,711	2,697	3,046	9%	10%
Addysg	571	677	717	698	2%	22%
Cyfunol	123	161	104	94	0%	-24%
HCA (SAC)	2,385	2,347	2,411	2,322	7%	-3%
Cyfanswm	31,036	31,935	31,626	32,205	100%	4%


Nifer o Ddechreuwyr Llawn-amser yn ôl Maes Pwnc
Blwyddyn
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
0
5,000
10,000
15,000
20,000
25,000
30,000
35,000
Nifer o Ddechreuwyr Llawn-amser
Meddygaeth ac Deintyddiaeth
Gwyddorau Biolegol
Gwyddorau Ffisegol
Cyfrifiadureg
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio
Y Gyfraith
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol
Addysg
HCA (QTS)
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig
Gwyddorau Mathemategol
Peirianneg a Thechnoleg
Astudiaethau Cymdeithasol
Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth
Ieithoedd
Celfyddydau Creadigol a Dylunio
Cyfunol

Dechreuwyr rhan-amser

Y meysydd pwnc a oedd â'r gyfran fwyaf o ddechreuwyr rhan-amser mewn SAUau yng Nghymru oedd Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth, Addysg, Ieithoedd a Chyfunol, a oedd yn cynrychioli ychydig dros hanner yr holl ddechreuwyr rhan-amser. Roedd pob maes pwnc yn cynrychioli rhwng 11 ac 16 y cant mewn unrhyw flwyddyn.

Y meysydd pwnc a oedd â'r cyfrannau lleiaf oedd Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth, Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig, Gwyddorau Mathemategol a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn arwain at Statws Athro Cymwys (HCA (SAC)) a oedd yn cynrychioli llai nag un y cant o'r holl ddechreuwyr rhan-amser bob blwyddyn.

Tabl 1e: Dechreuwyr ar gyrsiau AU rhan-amser mewn SAUau yng Nghymru yn ôl Maes Pwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Rhan Amser				Dechreuwyr 2005/06 fel % o'r Cyfanswm	Newid % 2002/03 i 2005/06
Maes Pwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06		
Meddygaeth a Deintyddiaeth	416	604	806	764	2%	84%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth	2,061	2,458	2,640	2,825	9%	37%
Gwyddorau Biolegol	586	679	744	973	3%	66%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	186	142	169	166	1%	-11%
Gwyddorau Ffisegol	382	332	254	485	2%	27%
Gwyddorau Mathemategol	*	57	+	+	0%	2191%
Cyfrifiadureg	1,217	1,063	1,058	1,009	3%	-17%
Peirianneg a Thechnoleg	1,667	1,708	1,700	1,728	6%	4%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	461	525	429	559	2%	21%
Astudiaethau Cymdeithasol	2,229	2,279	2,577	2,377	8%	7%
Y Gyfraith	420	476	381	343	1%	-18%
Astudiaeth Busnes a Gweinyddiaeth	3,875	3,977	3,779	4,369	14%	13%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	240	212	282	283	1%	18%
Ieithoedd	3,761	4,033	4,410	4,261	14%	13%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	2,290	1,694	1,824	1,459	5%	-36%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	707	878	939	1,023	3%	45%
Addysg	3,575	4,637	4,074	4,356	14%	22%
Cyfunol	4,245	3,125	3,606	3,511	11%	-17%
HCA (SAC)	*	8	*	*	0%	100%
Cyfanswm	28,325	28,885	29,713	30,578	100%	8%


Nifer o Ddechreuwyr Rhan Amser yn ôl Maes Pwnc
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
Blwyddyn
0
5,000
10,000
15,000
20,000
25,000
30,000
35,000
Nifer o Ddechreuwyr Rhan-amser
Meddygaeth ac Deintyddiaeth
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth
Gwyddorau Biolegol
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig
Gwyddorau Ffisegol
Gwyddorau Mathemategol
Cyfrifiadureg
Peirianneg a Thechnoleg
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio
Astudiaethau Cymdeithasol
Y Gyfraith
Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth
Ieithoedd
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol
Celfyddydau Creadigol a Dylunio
Addysg
Cyfunol
HCA (SAC)

Cymwysedigion llawn amser

Y meysydd pwnc a oedd â'r gyfran fwyaf o gymwysedigion llawn amser o SAUau yng Nghymru oedd Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth, Gwyddorau Biolegol, HCA (SAC) a phynciau a phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth a oedd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli dros ddau bumed o'r holl gymwysedigion llawn amser. Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth oedd y maes pwnc a oedd yn cynrychioli'r gyfran fwyaf o gymwysedigion llawn amser, gan gynrychioli rhwng 13 a 15 y cant mewn unrhyw flwyddyn. Roedd pob un o'r tri phwnc arall yn cynrychioli rhwng 8 ac 11 y cant bob blwyddyn.

Y meysydd pwnc a oedd â'r gynrychiolaeth leiaf oedd Gwyddorau Mathemategol a Chyfunol a oedd yn cynrychioli un y cant neu'n llai o'r cymwysedigion llawn amser bob blwyddyn.

Tabl 1f: Cymwysedigion o gyrsiau AU llawn amser mewn SAUau yng Nghymru yn ôl Maes Pwnc

	Nifer o Cymwysedigion Llawn-Amser				Cymwyse-digion 2005/06 fel % o'r Cyfanswm	Newid % 2002/03 i 2005/06
Maes Pwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06		
Meddygaeth a Deintyddiaeth	339	327	440	410	2%	21%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth	1,698	2,089	2,618	2,014	8%	19%
Gwyddorau Biolegol	2,147	2,296	2,474	2,591	11%	21%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	331	279	314	263	1%	-20%
Gwyddorau Ffisegol	1,014	1,084	1,193	1,198	5%	18%
Gwyddorau Mathemategol	213	192	207	208	1%	-2%
Cyfrifiadureg	841	1,033	1,266	923	4%	10%
Peirianneg a Thechnoleg	1,234	1,254	1,526	1,513	6%	23%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	461	410	462	455	2%	-1%
Astudiaethau Cymdeithasol	1,696	1,649	1,875	1,783	7%	5%
Y Gyfraith	1,209	1,260	1,510	1,364	6%	13%
Astudiaeth Busnes a Gweinyddiaeth	3,050	3,091	3,415	3,515	15%	15%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	597	598	718	669	3%	12%
Ieithoedd	1,337	1,312	1,416	1,445	6%	8%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	886	980	1,114	1,111	5%	25%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	1,774	1,882	2,114	2,006	8%	13%
Addysg	498	511	507	462	2%	-7%
Cyfunol	80	62	67	67	0%	-16%
HCA (SAC)	2,133	2,141	2,129	2,066	9%	-3%
Cyfanswm	21,538	22,451	25,365	24,064	100%	12%


Nifer o Cymwysedigion Llawn-amser yn ôl Maes Pwnc
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
Blwyddyn
0
5,000
10,000
15,000
20,000
25,000
30,000
Nifer o Cymwysedigion Llawn-amser
Meddygaeth ac Deintyddiaeth
Gwyddorau Biolegol
Gwyddorau Ffisegol
Cyfrifiadureg
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio
Y Gyfraith
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol
Addysg
HCA (SAC)
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig
Gwyddorau Mathemategol
Peirianneg a Thechnoleg
Astudiaethau Cymdeithasol
Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth
Ieithoedd
Celfyddydau Creadigol a Dylunio
Cyfunol

Cymwysedigion rhan-amser

Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion rhan-amser o SAUau yng Nghymru mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth , Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth ac Ieithoedd yn 2004/05 a 2005/06 o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r meysydd pwnc hyn wedi'u heffeithio'n arbennig gan y materion a grybwyllwyd gynt, sef y cynnydd yn nifer y cymwysedigion o gynllun ysgoloriaeth ymchwil cysylltiol Prifysgol Morgannwg a'r niferoedd mawr o gymwysterau a gafwyd o statws cwsg.

Y meysydd pwnc a oedd â'r gynrychiolaeth fwyaf ymhlith cymwysedigion rhan-amser oedd Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth, Cyfunol ac Addysg a oedd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli ychydig dros hanner yr holl gymwysedigion rhan-amser yn 2002/03, ychydig o dan hanner yn 2003/04 a dau bumed yn 2004/05. Yn 2005/06 y meysydd pwnc a oedd â'r gynrychiolaeth fwyaf oedd Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth, Ieithoedd ac Addysg a oedd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli ychydig dros ddau bumed o'r holl gymwysedigion rhan-amser.

Y pynciau a oedd â'r gynrychiolaeth leiaf ymhlith y cymwysedigion rhan-amser oedd Gwyddorau Mathemategol a HCA (SAC) a oedd yn cynrychioli ychydig o dan hanner y cant o'r holl gymwysedigion rhan-amser bob blwyddyn.

Tabl 1g: Cymwysedigion o gyrsiau AU rhan-amser mewn SAUau yng Nghymru yn ôl Maes Pwnc

	Nifer o Cymwysedigion Rhan-amser				Cymwyse-digion 2005/06 fel % o'r Cyfanswm	Newid % 2002/03 i 2005/06
Maes Pwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06		
Meddygaeth a Deintyddiaeth	274	309	433	524	3%	91%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth	854	671	1,050	1,746	10%	104%
Gwyddorau Biolegol	412	497	568	793	4%	93%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	91	102	164	91	1%	-1%
Gwyddorau Ffisegol	66	88	183	268	2%	308%
Gwyddorau Mathemategol	10	36	47	41	0%	313%
Cyfrifiadureg	525	660	677	691	4%	32%
Peirianneg a Thechnoleg	908	841	1,303	1,221	7%	34%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	254	313	328	305	2%	20%
Astudiaethau Cymdeithasol	505	960	1,347	1,434	8%	184%
Y Gyfraith	151	157	227	177	1%	18%
Astudiaeth Busnes a Gweinyddiaeth	1,859	1,754	2,205	2,871	16%	54%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	103	129	131	165	1%	60%
Ieithoedd	693	240	1,144	2,756	16%	298%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	273	474	883	655	4%	140%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	126	183	214	345	2%	173%
Addysg	1,649	1,721	1,898	1,856	11%	13%
Cyfunol	2,525	1,636	2,049	1,699	10%	-33%
HCA (SAC)	6	6	15	5	0%	-17%
Cyfanswm	11,283	10,776	14,868	17,643	100%	56%


Nifer o Cymwysedigion Rhan-amser yn ôl Maes Pwnc
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
Blwyddyn
0
2,000
4,000
6,000
8,000
10,000
12,000
14,000
16,000
18,000
20,000
Nifer o Cymwysedigion Rhan-amser
Meddygaeth ac Deintyddiaeth
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth
Gwyddorau Biolegol
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig
Gwyddorau Ffisegol
Gwyddorau Mathemategol
Cyfrifiadureg
Peirianneg a Thechnoleg
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio
Astudiaethau Cymdeithasol
Y Gyfraith
Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth
Ieithoedd
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol
Celfyddydau Creadigol a Dylunio
Addysg
Cyfunol
HCA (SAC)

2. Meddygaeth a Deintyddiaeth

Dechreuwyr

Modd

Mae'r holl gyrsiau israddedig mewn Meddygaeth a Deintyddiaeth yn rhai llawn amser, gan fod Meddygaeth a Deintyddiaeth yn bynciau a reolir yn ôl cwota ac a ariennir ar lefel israddedig llawn amser yn unig. Mae'r ddarpariaeth ôl-raddedig ar gael ar ffurf cyrsiau llawn amser a rhan-amser.

Yn 2005/06, dechreuodd 563 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Meddygaeth a Deintyddiaeth mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 74 neu 15 y cant ar nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser 84 y cant o 416 yn 2002/03 i 764 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 58 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Meddygaeth a Deintyddiaeth yn 2005/06, sef cynnydd o dros 10 pwynt canran ers 2002/03.

Wrth i nifer y myfyrwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau rhan-amser gynyddu, cynyddodd lefel y gweithgarwch rhan-amser hefyd. Cododd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl 164 neu 81 y cant gan gyrraedd 367 yn 2005/06. Arhosodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser o gwmpas 50 y cant trwy gydol y cyfnod.

Lefel

Llawn amser

Er i ddechreuwyr ar gyrsiau Meddygaeth a Deintyddiaeth llawn amser gynyddu o 15 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, roedd 108 o ddechreuwyr ôl-raddedig, 435 o ddechreuwyr gradd cyntaf ac 20 o ddechreuwyr israddedig eraill ar gyrsiau Meddygaeth a Deintyddiaeth llawn amser, gan gynrychioli cynnydd o 21, 13 a 33 y cant ar ffigurau 2002/03 yn eu trefn. Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Roedd yr holl ddechreuwyr rhan-amser yn ôl-raddedigion.

Tabl 2a: Dechreuwyr ar gyrsiau Meddygaeth a Deintyddiaeth yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	89	385	15	489
	2003/04	94	380	15	489
	2004/05	119	404	17	540
	2005/06	108	435	20	563
	Newid net	19	50	5	74
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	416	0	0	416
	2003/04	604	0	0	604
	2004/05	806	0	0	806
	2005/06	764	0	0	764
	Newid net	348	0	0	348
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	202	0	0	202
	2003/04	303	0	0	303
	2004/05	420	0	0	420
	2005/06	367	0	0	367
	Newid net	164	0	0	164









Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 410 o fyfyrwyr gymhwyster mewn Meddygaeth a Deintyddiaeth trwy astudio'n llawn amser, sef cynnydd o 21 y cant ar y nifer yn 2002/03.

Cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau mewn Meddygaeth a Deintyddiaeth ar ôl astudio'n rhan-amser 91 y cant o 274 yn 2002/03 i 524 yn 2005/06. Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 56 y cant o'r holl gymwysterau Meddygaeth a Deintyddiaeth a gafwyd yn 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu 11 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 45 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Esbonnir y cynnydd mawr yn nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau mewn Meddygaeth a Deintyddiaeth ar ôl astudio'n rhan-amser gan y cynnydd mawr bob blwyddyn yn nifer y cymwysedigion rhan-amser sy'n ennill diplomâu ôl-raddedig.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser gynyddu 21 y cant yn ystod y cyfnod, roedd y gyfran hon yn amrywio gan ddibynnu ar lefel y cymhwyster a gafwyd. Cafodd dros ddwbl y cymwysedigion llawn amser, sef 105, gymhwyster ôl-raddedig mewn 2005/06 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 4 y cant i 291. Dyblodd nifer y rheiny a gafodd gymwysterau israddedig eraill i 14 yn 2005/06, er bod y niferoedd ym mhob blwyddyn yn isel. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Roedd yr holl gymwysedigion rhan-amser yn ôl-raddedigion.

Tabl 2b: Cymwysedigion o gyrsiau Meddygaeth a Deintyddiaeth yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	52	280	7	339
	2003/04	51	264	12	327
	2004/05	123	295	22	440
	2005/06	105	291	14	410
	Newid net	53	11	7	71
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	274	0	0	274
	2003/04	309	0	0	309
	2004/05	433	0	0	433
	2005/06	524	0	0	524
	Newid net	250	0	0	250









3. Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06 dechreuodd 2,680 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth mewn SAUau yng Nghymru, sef gostyngiad o 3 y cant ar nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser 37 y cant i 2,825 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 51 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth yn 2005/06, sef cynnydd o 8 pwynt canran ers 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau rhan-amser mewn pynciau a phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth, ni chynyddodd gweithgarwch rhan-amser ar yr un gyfradd. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi cynyddu 19 y cant i 992 yn 2005/06 a gostyngodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser o 40 y cant yn 2002/03 i 35 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth ddisgyn 3 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol; roedd cynnydd cyfrannol mwy ar lefel ôl-raddedig a gradd cyntaf a gostyngiad mawr ar lefel israddedigion eraill. Yn 2005/06, dechreuodd 176 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef cynnydd o 30 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 2,318 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef cynnydd o 43 y cant ers 2002/03. Gostyngodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser 81 y cant i 186 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd cyntaf.

Mae mwyafrif y newidiadau yn y lefelau gradd cyntaf ac israddedigion eraill o ganlyniad i'r newid arfer mewn perthynas â'r Diploma/Baglor Nyrsio. O 2004/05 ymlaen mae myfyrwyr yn cofrestru ar Faglor Nyrsio a gallant ennill naill ai gradd cyntaf neu ddiploma.

Rhan-amser

Fel gyda'r dechreuwyr llawn amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr rhan-amser mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Yn 2005/06, dechreuodd 578 o ddechreuwyr ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser, sef cynnydd o 25 y cant ers 2002/03. Dechreuodd 420 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf rhan-amser, sef cynnydd o 1 y cant a dechreuodd 1,827 ar gyrsiau israddedig eraill rhan-amser, sef cynnydd o 54 y cant ers 2002/03. Roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio ar gyrsiau israddedigion eraill.

Roedd y cynnydd yn yr astudiaethau'n dilyn patrwm gwahanol i'r cynnydd yn nifer y dechreuwyr. Nid oedd astudiaethau ar lefel ôl-raddedig wedi newid ond roedd astudiaethau ar lefel gradd cyntaf ac israddedigion eraill wedi cynyddu. Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel gradd cyntaf o chwarter tra y bu iddynt gynyddu o 28 y cant ar lefel israddedigion eraill. Disgynnodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 49 y cant i 38 y cant ac ar lefel israddedigion eraill o 37 y cant i 31 y cant. Cynyddodd y CALl cyfartalog ar gyfer graddau cyntaf o 40 y cant yn 2002/03 i 49 y cant yn 2005/06.

Mae'r cynnydd mawr a welwyd yn nifer dechreuwyr israddedig eraill o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y cofrestriadau am gredydau sefydliadol ym Mhrifysgol Abertawe o 2003/04, ym Mhrifysgol Caerdydd o 2004/05 a Phrifysgol Morgannwg o 2005/06. Mae'r cofrestriadau ym Mhrifysgol Morgannwg yn gofrestriadau ar gynlluniau ysgoloriaeth ymchwil cysylltiol (gweler yr adran cymwysedigion rhan-amser yn y bennod Gorolwg).

Tabl 3a: Dechreuwyr ar gyrsiau mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	136	1,616	999	2,751
	2003/04	146	1,691	809	2,646
	2004/05	163	2,369	198	2,730
	2005/06	176	2,318	186	2,680
	Newid net	40	702	-813	-71
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	463	415	1,183	2,061
	2003/04	363	587	1,508	2,458
	2004/05	437	522	1,681	2,640
	2005/06	578	420	1,827	2,825
	Newid net	115	5	644	764
CALl Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	225	166	439	831
	2003/04	161	239	502	902
	2004/05	187	184	514	885
	2005/06	222	208	563	992
	Newid net	-4	41	123	161













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 2,014 o fyfyrwyr gymhwyster mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth trwy astudio'n llawn amser, sef cynnydd o 19 y cant ers 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, bu i nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'r rhan-amser fwy na dyblu i 1,746 yn 2005/05.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 46 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth yn 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi codi 13 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 33 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth godi 19 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Gostyngodd nifer y cymwysedigion llawn amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 14 y cant i 100 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y rheiny a enillodd graddau cyntaf 72 y cant i 1,589 a gostyngodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill 50 y cant i 325 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Mae'r newid o Ddiploma i Faglor Nyrsio a nodwyd yn flaenorol yn cael ei adlewyrchu yng nghynnydd y cymwysedigion gradd cyntaf llawn amser o 2004/05 ymlaen. Gwelir gostyngiad cyfatebol yn nifer y cymwysedigion llawn amser ar lefel israddedig eraill hefyd, er bod y gostyngiad yn 2004/05 yn cael ei guddio gan nifer uchel y cymwysedigion gradd sylfaen ym Mhrifysgol Morgannwg.

Rhan-amser

Bu i nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth fwy na dyblu yn ystod y cyfnod. Roedd hyn o ganlyniad i'r cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion ôl-raddedig eraill yn bennaf, a gynyddodd dros deirgwaith yn ystod y cyfnod i 1,122 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 43 y cant i 320 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 15 y cant i 304. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau rhan-amser yn 2005/06 yn gymwysterau israddedig eraill. Yn y blynyddoedd blaenorol roedd israddedigion eraill yn cynrychioli llai na hanner yr holl gymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau rhan-amser, ond hon oedd y gyfran fwyaf o hyd.

Mae'r cynnydd mawr yn nifer y cymwysterau israddedig eraill yn adlewyrchu'r nifer fawr o gredydau sefydliadol a gafwyd o statws gweithredol a chwsg ym Mhrifysgol Abertawe yn 2005/06 a chynnydd yn y credydau sefydliadol a gafwyd gan ddechreuwyr ar y cynllun ysgoloriaeth ymchwil cysylltiol ym Mhrifysgol Morgannwg, hefyd yn 2005/06.

Tabl 3b: Cymwysedigion o Pynciau'n Gysylltiedig â Meddygaeth yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	117	926	655	1,698
	2003/04	111	1,077	901	2,089
	2004/05	100	1,526	993	2,618
	2005/06	100	1,589	325	2,014
	Newid net	-17	663	-330	316
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	223	265	366	854
	2003/04	182	231	258	671
	2004/05	267	315	468	1,050
	2005/06	320	304	1,122	1,746
	Newid net	97	39	756	892













Tabl 3c: Cymwysedigion Is-raddedigion eraill yn SAUau Cymraeg

	Cymwysedigion Rhan-amser Eraill			
	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Active mode of study	263	120	224	456
Statws Segur	89	138	215	519
Ysgoloriaethau Cysylltiol yn Prifysgol Morgannwg	14	0	29	147
Cyfanswm	366	258	468	1,122
% Statws Segur	24%	53%	46%	46%
% Ysgoloriaethau Cysylltiol yn Prifysgol Morgannwg	4%	0%	6%	13%

4. Gwyddorau Biolegol

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06 dechreuodd 3,458 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Biolegol mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 18 y cant ar nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser 66 y cant i 973 yn 2005/05. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 22 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Gwyddorau Biolegol yn 2005/06, sef cynnydd o 5 pwynt canran ers 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol gynyddu, ni chynyddodd y gweithgarwch rhan-amser ar gyfer dechreuwyr ar yr un gyfradd. Wrth ystyried CALloedd gellir gweld bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi cynyddu o 30 y cant i 233 yn 2005/06. I ddechrau, cynyddodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser o 31 y cant yn 2003/03 i 37 y cant yn 2003/04, ond yna disgynnodd i 24 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau yn y Gwyddorau Biolegol llawn amser gynyddu 18 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 439 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef cynnydd o 39 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 2,843 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef cynnydd o 16 y cant ers 2002/03. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser hefyd 16 y cant i gyrraedd 176 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda dechreuwyr llawn amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr rhan-amser yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Yn 2005/06, nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol oedd 130, sef gostyngiad o 19 y cant ers 2002/03 a chynyddodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau gradd cyntaf rhan-amser fwy na phedair gwaith i 172. Cynyddodd nifer y rheiny a oedd yn dechrau ar astudiaethau israddedig eraill rhan-amser o bron i dri chwarter i 671 erbyn 2005/06. Ym mhob blwyddyn roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill, ac eithrio yn 2003/04 pan ddisgynnodd gyfran y cyrsiau israddedig eraill i lai na hanner, ond hon oedd y gyfran fwyaf o hyd.

Ni wnaeth maint yr astudiaethau gadw i fyny â'r newidiadau i nifer y dechreuwyr. Disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl 8 y cant ar lefel ôl-raddedigion ac

israddedigion eraill. Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALI ar lefel gradd cyntaf fwy na phedair gwaith. Cynyddodd y CALI cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 39 y cant i 44 y cant ac o 43 y cant i 48 y cant ar lefel gradd cyntaf.

Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gradd cyntaf ar gyfer astudiaethau rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol yn cael ei darparu gan y Brifysgol Agored. Yn 2002/03 codiodd y Brifysgol Agored y rhan fwyaf o'i darpariaeth â chod pwnc Cyfunol. Mae'n bosibl felly bod dechreuwyr gradd cyntaf yn y Gwyddorau Biolegol yn y Brifysgol Agored yn 2002/03 wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y maes pwnc Cyfunol.

Tabl 4a: Dechreuwyr ar gyrsiau Gwyddorau Biolegol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	315	2,458	152	2,925
	2003/04	302	2,580	141	3,023
	2004/05	400	2,715	132	3,247
	2005/06	439	2,843	176	3,458
	Newid net	124	385	24	533
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	160	37	389	586
	2003/04	181	184	314	679
	2004/05	139	148	457	744
	2005/06	130	172	671	973
	Newid net	-30	135	282	387
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	62	16	101	179
	2003/04	74	88	85	248
	2004/05	56	67	72	195
	2005/06	58	82	93	233
	Newid net	-5	67	-8	53













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 2,591 o fyfyrwyr gymhwyster yn y Gwyddorau Biolegol trwy astudiaethau llawn amser, sef cynnydd o 21 y cant ar y nifer yn 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau o ganlyniad i astudiaethau rhan-amser bron i ddwywaith, gan godi o 412 yn 2002/03 i 793 yn 2005/06.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster trwy astudiaethau rhan-amser yn cyfrif am 23 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn y Gwyddorau Biolegol yn 2005/06. Mae'r gyfradd hon wedi cynyddu 7 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 16 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Biolegol gynyddu o 21 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 62 y cant i 323 yn 2005/06, cynyddodd nifer y rheiny a enillodd graddau cyntaf 15 y cant i 2,121 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd gymhwyster israddedig arall 46 y cant i 148 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol bron i ddwywaith yn ystod y cyfnod. Roedd hyn o ganlyniad i'r cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion israddedig eraill yn bennaf, a gynyddodd fwy na ddwywaith yn ystod y cyfnod gan gyrraedd 603 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 33 y cant i 140 a dyblodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf i 51 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau israddedig eraill.

Tabl 4b: Cymwysedigion o gyrsiau yn y Gwyddorau Biolegol yn ôl Modd a Lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	199	1,847	101	2,147
	2003/04	270	1,915	111	2,296
	2004/05	282	1,992	201	2,474
	2005/06	323	2,121	148	2,591
	Newid net	124	274	46	444
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	105	25	282	412
	2003/04	114	73	310	497
	2004/05	137	70	362	568
	2005/06	140	51	603	793
	Newid net	35	26	321	381













Gwyddorau Biolegol yn ôl y Prif Bwnc

Dechreuwyr llawn amser

Y prif bynciau a oedd yn ffurfio cyfran fwyaf y dechreuwyr llawn amser yn y Gwyddorau Biolegol oedd Bioleg, Gwyddor Chwaraeon a Seicoleg, a oedd gyda'i gilydd yn cynrychioli 76 y cant o'r holl ddechreuwyr llawn amser mewn Gwyddorau Biolegol yn 2002/03, gan godi i 83 y cant yn 2005/06.

Gwyddor Chwaraeon sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn nifer y dechreuwyr llawn amser yn ystod y cyfnod, gan godi 58 y cant i 1,060 yn 2005/06.

Tabl 4c: Dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser yn Gwyddorau Biolegol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Llawn-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Bioleg	564	618	649	585
Botaneg	5	8	0	0
Swoleg	203	193	188	207
Geneteg	51	42	70	45
Microbioleg	105	114	92	69
Gwyddor chwaraeon	673	691	880	1,060
Bioleg foleciwlaidd, bioffiseg a biocemeg	122	111	126	92
Seicoleg	998	1,114	1,188	1,209
Eraill yn y gwyddorau biolegol	206	134	55	192
Cyfanswm	2,925	3,023	3,247	3,458



Dechreuwyr rhan-amser

Y prif bynciau a oedd yn ffurfio cyfran fwyaf y dechreuwyr rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol oedd eraill yn y Gwyddorau Biolegol, Gwyddor Chwaraeon a Seicoleg, a oedd gyda'i gilydd yn cynrychioli 79 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Gwyddorau Biolegol rhan-amser yn 2002/03, gan godi i 88 y cant yn 2005/06. Gellir esbonio'r newid i nifer y dechreuwyr rhan-amser rhwng 2003/04 a 2004/05 o eraill yn y Gwyddorau Biolegol i Wyddor Chwaraeon trwy'r newid i'r arfer codio mewn un athrofa lle ail-ddosbarthwyd cyrsiau Gwyddor Chwaraeon o'r maes pwnc Eraill yn y Gwyddorau Biolegol, er i nifer y dechreuwyr rhan-amser mewn Gwyddor Chwaraeon gynyddu'n fawr yn 2005/06. Mae tua hanner y dechreuwyr Seicoleg rhan-amser yn astudio â'r Brifysgol Agored, ond yn 2002/03 cafodd y rhan fwyaf o ddarpariaeth y Brifysgol Agored ei chodio fel Cyfunol, felly mae'n bosibl bod dechreuwyr Seicoleg rhan-amser y Brifysgol Agored yn 2002/03 wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y maes pwnc Cyfunol.

Nid oedd unrhyw ddechreuwyr rhan-amser mewn Botaneg a Swoleg ac ychydig iawn oedd mewn Geneteg.

Tabl 4d: Dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Rhan Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Bioleg	+	57	90	96
Botaneg	0	0	0	0
Swoleg	0	0	0	0
Geneteg	0	*	0	0
Microbioleg	68	52	50	25
Gwyddor chwaraeon	112	101	383	581
Bioleg foleciwlaidd, bioffiseg a biocemeg	*	+	+	0
Seicoleg	93	239	212	263
Eraill yn y gwyddorau biolegol	259	216	*	8
Cyfanswm	586	679	744	973



Yr holl ddechreuwyr

Yn 2002/03 a 2003/04, Eraill yn y Gwyddorau Biolegol oedd y pwnc a oedd â'r gyfran fwyaf o ddechreuwyr yn astudio'n rhan-amser, gyda thros 50 y cant o ddechreuwyr yn dechrau ar gyrsiau ar sail ran-amser, er i'r gyfran hon ddisgyn i 4 y cant yn 2005/06 o ganlyniad i ailddosbarthu mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser hyn i Wyddor Chwaraeon. Cyfran y dechreuwyr Gwyddor Chwaraeon a oedd yn astudio'n rhan-amser yn 2005/06 oedd 35 y cant.

Gostyngodd gyfran y dechreuwyr ar gyrsiau Microbioleg rhan-amser o 39 y cant i 27 y cant yn ystod y cyfnod.



Cymwysedigion llawn amser

Y prif bynciau a oedd yn ffurfio'r gyfran fwyaf o gymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Biolegol oedd Bioleg, Gwyddor Chwaraeon a Seicoleg, a oedd gyda'i gilydd yn cynrychioli 73 y cant o'r holl gymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Biolegol yn 2002/03, gan godi i 82 y cant yn 2005/06.

Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Gwyddor Chwaraeon, gan godi 71 y cant i 787 yn 2005/06 a hefyd mewn Seicoleg a gododd 27 y cant i 925.

Tabl 4e: Cymwysedigion o gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Biolegol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Llawn-Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Bioleg	385	377	386	421
Botaneg	*	6	*	8
Swoleg	195	229	227	193
Geneteg	+	59	62	48
Microbioleg	88	78	95	80
Gwyddor chwaraeon	462	534	697	787
Bioleg foleciwlaidd, bioffiseg a biocemeg	103	106	101	97
Seicoleg	724	788	861	925
Eraill yn y gwyddorau biolegol	124	119	+	33
Cyfanswm	2,147	2,296	2,474	2,591



Cymwysedigion rhan-amser

Yn 2002/03 a 2003/04 cymhwysodd bron i 60 y cant o'r cymwysedigion rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol mewn cyrsiau Eraill yn y Gwyddorau Biolegol. O 2004/05 ymlaen, cymhwysodd mwyafrif y cymwysedigion rhan-amser mewn cyrsiau Gwyddor Chwaraeon, gan gynrychioli 62 y cant o'r holl gymwysedigion rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol yn 2004/05 a 78 y cant yn 2005/06. Mae'r newid yn nifer y cymwysedigion rhan-amser rhwng 2003/04 a 2004/05 o Eraill yn y Gwyddorau Biolegol i Wyddor Chwaraeon yn unol â'r esboniad ar gyfer dechreuwyr rhan-amser. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd mawr yng nghymwysedigion rhan-amser mewn Gwyddor Chwaraeon beth bynnag yn 2005/06.

Nid oedd unrhyw gymwysedigion rhan-amser mewn Botaneg ac ychydig iawn oedd mewn Swoleg, Geneteg a Bioleg Foleciwlaidd, Bioffiseg a Biocemeg.

Tabl 4f: Cymwysedigion o gyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Biolegol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Rhan-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Bioleg	63	52	53	57
Botaneg	0	0	0	0
Swoleg	*	*	*	*
Geneteg	0	*	*	0
Microbioleg	31	36	62	44
Gwyddor chwaraeon	51	44	351	621
Bioleg foleciwlaidd, bioffiseg a biocemeg	*	*	*	0
Seicoleg	19	67	89	69
Eraill yn y gwyddorau biolegol	246	293	6	*
Cyfanswm	412	497	568	793



Yr holl gymwysedigion

Yn 2002/03 a 2003/04, Eraill yn y Gwyddorau Biolegol oedd y pwnc â'r gyfran fwyaf o gymwysedigion a oedd wedi astudio'n rhan-amser, gyda thros 60 y cant o gymwysedigion yn enill cymwysterau ar ôl astudio'n rhan-amser, er i'r gyfran hon ddisgyn 3 y cant erbyn 2005/06 o ganlyniad i ailddosbarthu mwyafrif y cymwysedigion rhan-amser hyn i Wyddor Chwaraeon. Cyfran y cymwysedigion Gwyddor Chwaraeon a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n rhan-amser yn 2005/06 oedd 44 y cant.

Cynyddodd gyfran y cymwysedigion Microbioleg a astudiodd yn rhan-amser o 26 y cant i 36 y cant yn ystod y cyfnod.



5. Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06 dechreuodd 332 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig mewn SAUau yng Nghymru, sef gostyngiad o 17 y cant o gymharu â nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, disgynnodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser 11 y cant i 166 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am oddeutu traean o'r holl ddechreuwyr yn ystod y cyfnod.

Er i nifer y myfyrwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau mewn Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig ostwng, disgynnodd y gweithgarwch rhan-amser ar gyfer y dechreuwyr hyn ar gyfradd uwch. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi gostwng 16 y cant i 73 yn 2005/06. Amrywiodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser yn ystod y cyfnod, ond roedd yn 46 y cant yn 2002/03 a 44 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig ddisgyn 17 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yr wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn nifer y dechreuwyr ôl-raddedig ar gyrsiau Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig wrth i'r niferoedd bron â haneru yn ystod y cyfnod i 46 yn 2005/06. Ar lefel gradd cyntaf ac israddedigion eraill, disgynnodd nifer y dechreuwyr 9 y cant. Roedd 172 o ddechreuwyr gradd cyntaf a 114 o ddechreuwyr israddedig eraill yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod dechreuodd y gyfran fwyaf o ddechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd cyntaf, er bod nifer y dechreuwyr yn fwy hafal ar bob lefel nag ym mwyafrif y meysydd pwnc eraill.

Rhan-amser

Fel gyda dechreuwyr llawn amser, roedd y newidiadau i nifer y dechreuwyr rhan-amser yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Ychydig iawn o fyfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau mewn Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig ar lefel ôl-raddedig a gradd cyntaf; gall amrywiadau i'r niferoedd hyn achosi newid mawr o ran canran. Yn 2005/06 roedd llai nag 20 o ddechreuwyr ôl-raddedig a llai na phump o ddechreuwyr gradd cyntaf yn y maes pwnc hwn. Ni welwyd newid mawr yn nifer y dechreuwyr israddedig rhan-amser eraill yn ystod y cyfnod. Roedd 145 o ddechreuwyr yn astudio ar y lefel hon yn 2005/06. Roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill.

Er i nifer y dechreuwyr israddedig eraill aros yr un fath, gwelwyd gostyngiad yn lefel yr astudiaethau ar y lefel hon. Gostyngodd nifer y dechreuwyr israddedig eraill rhan-amser

CALI 9 y cant. Gostyngodd y CALI cyfartalog ar gyfer y dechreuwyr hyn o 49 y cant yn 2002/03 i 45 y cant yn 2005/06.

Tabl 5a: Dechreuwyr ar gyrsiau Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	87	190	125	402
	2003/04	98	166	121	385
	2004/05	80	174	112	366
	2005/06	46	172	114	332
	Newid net	-41	-18	-11	-70
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	28	12	146	186
	2003/04	+	*	130	142
	2004/05	13	7	149	169
	2005/06	+	*	145	166
	Newid net	+	+	0	-20
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	10	4	72	86
	2003/04	3	2	63	69
	2004/05	5	3	55	63
	2005/06	6	2	65	73
	Newid net	-5	-2	-7	-14













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, cafodd 263 o fyfyrwyr gymhwyster mewn Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig trwy astudio'n llawn amser, sef gostyngiad o 20 y cant ar y nifer yn 2002/03.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n rhan-amser, sef 91, yr un fath ar ddechrau a diwedd y cyfnod, er y gwelwyd cynnydd yn y blynyddoedd cyfamserol.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 22 y cant o'r holl gymwysterau mewn Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig a gafwyd yn 2002/03. Cynyddodd y gyfran hon 12 pwynt canran i 34 y cant yn 2004/05 ond yna gostyngodd 8 pwynt canran ar ffigur 2004/05 i 26 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig ostwng 20 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Gostyngodd nifer y cymwysedigion llawn amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig o ychydig dros chwarter i 53 yn 2005/06. Gostyngodd y rheiny a enillodd raddau cyntaf 12 y cant i 133 a gostyngodd y rheiny a enillodd gymhwyster israddedig arall 27 y cant i 78 yn 2005/06. Roedd y gyfran fwyaf o'r cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Ychydig iawn o fyfyrwyr rhan-amser a gymhwysodd mewn Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig ar lefel ôl-raddedig a gradd cyntaf; gall amrywiadau yn y niferoedd hyn achosi newidiadau mawr o ran canran. Dyblodd nifer y cymwysedigion rhan-amser ar lefel israddedigion eraill rhwng 2002/03 a 2004/05 gan gyrraedd 134, ond yna disgynnodd i 64 yn 2005/06, gan gynrychioli cynnydd o 4 y cant yn ystod y cyfnod.

Tabl 5b: Cymwysedigion o gyrsiau Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	72	152	107	331
	2003/04	53	156	71	279
	2004/05	56	148	110	314
	2005/06	53	133	78	263
	Newid net	-19	-19	-29	-67
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	14	10	67	91
	2003/04	13	13	76	102
	2004/05	15	15	134	164
	2005/06	19	8	64	91
	Newid net	5	-2	-3	0













6. Gwyddorau Ffisegol

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 1,554 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 3 y cant ar nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser 27 y cant i 485 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 24 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Gwyddorau Ffisegol yn 2005/06, sef cynnydd o 4 pwynt canran ar gyfran 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio cyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Ffisegol gynyddu, cynyddodd y gweithgarwch rhan-amser ar gyfradd uwch. Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl 88 y cant i 230 yn 2005/06 a chynyddodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser o 32 y cant yn 2002/03 i 47 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol gynyddu 3 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 380 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef cynnydd o 13 y cant o gymharu â 2002/03 a dechreuodd 1,119 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, gan gynrychioli dim newid i'r nifer yn 2002/03. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser bumed i 55 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda dechreuwyr llawn amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr rhan-amser yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Yn 2005/06, dechreuodd 58 o ddechreuwyr ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser, sef gostyngiad o 11 y cant o gymharu o 2002/03 a chynyddodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau gradd cyntaf fwy na chwe gwaith i gyrraedd 191 yn 2005/06. Roedd hyn o ganlyniad i gynnydd mawr yn y niferoedd yn 2004/05 a 2005/06. Gostyngodd nifer y rheiny a ddechreuodd ar astudiaethau israddedig rhan-amser 19 y cant i 236 erbyn 2005/06. Roedd y gyfran fwyaf o ddechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill.

Newidiodd maint yr astudiaethau ar bob lefel gyda niferoedd y dechreuwyr ar bob lefel, er bod y newidiadau hyn yn fwy amlwg ar gyfer maint yr astudiaethau. Gostyngodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl 12 y cant a disgynnodd nifer y dechreuwyr ar lefel israddedigion eraill draean. Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan amser CALl ar lefel gradd cyntaf fwy na deuddeng gwaith. Y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr ar lefel ôl-raddedig oedd 52 y cant yn 2005/06, sef cyfran debyg i honno ar ddechrau'r cyfnod. Ar lefel israddedigion eraill, gostyngodd y CALl cyfartalog o 26 y cant i 22 y cant, tra cynyddodd y CALl cyfartalog ar gyfer graddau cyntaf o 46 y cant i 78 y cant yn 2005/06.

Tabl 6a: Dechreuwyr ar gyrsiau Gwyddorau Ffisegol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	337	1,119	46	1,502
	2003/04	394	1,155	48	1,597
	2004/05	396	997	50	1,443
	2005/06	380	1,119	55	1,554
	Newid net	43	0	9	52
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	65	26	291	382
	2003/04	85	36	211	332
	2004/05	52	72	130	254
	2005/06	58	191	236	485
	Newid net	-7	166	-55	103
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	34	12	76	122
	2003/04	41	19	38	98
	2004/05	30	28	26	84
	2005/06	30	148	52	230
	Newid net	-4	136	-24	108













Cymwysedigion

Modd

Yn ystod 2005/06, enillodd 1,198 o fyfyrwyr gymhwyster yn y Gwyddorau Ffisegol trwy astudio'n llawn amser, sef cynnydd o 18 y cant o gymharu â'r nifer yn 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n rhan-amser bedair gwaith i gyrraedd 268 yn ystod 2005/06.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 18 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn y Gwyddorau Ffisegol yn 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi codi 12 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 6 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol gynyddu o 18 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 26 y cant i 290 yn 2005/06, cynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 11 y cant i 834 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill fwy na dwywaith i gyrraedd 75 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Er i nifer y cymwysedigion rhan-amser yn y Gwyddorau Ffisegol gynyddu bedair gwaith, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymwysterau. Treblodd nifer y cymwysedigion rhan-amser ar lefel ôl-raddedig gan gyrraedd 82 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf draean i 32 yn 2005/06 a chynyddodd nifer y rheiny a gymhwysodd ar lefel israddedigion eraill deng gwaith. Roedd y gyfran fwyaf o gymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau ôl-raddedig yn 2002/03 a 2003/04, ond newidiodd hyn i gymwysterau israddedig eraill o 2004/05 ymlaen.

Tabl 6b: Cymwysedigion o gyrsiau Gwyddorau Ffisegol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	231	750	33	1,014
	2003/04	239	809	36	1,084
	2004/05	292	818	83	1,193
	2005/06	290	834	75	1,198
	Newid net	59	84	42	185
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	27	24	15	66
	2003/04	49	13	26	88
	2004/05	66	41	76	183
	2005/06	82	32	154	268
	Newid net	55	9	139	202













Gwyddorau Ffisegol yn ôl y Prif Bwnc

Dechreuwyr llawn amser

Y prif bynciau a oedd yn ffurfio'r gyfran fwyaf o ddechreuwyr llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol oedd Cemeg, Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol a Gwyddorau Daearyddol ac Amgylcheddol Ffisegol a Daearol, a oedd gyda'i gilydd yn cynrychioli ychydig yn llai na dau draean o'r holl ddechreuwyr llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol bob blwyddyn.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y dechreuwyr llawn amser yn ystod y cyfnod mewn Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol, gyda chynnydd o 35 y cant i 278 yn 2005/06.

Tabl 6c: Dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Llawn-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Rhaglenni â sail eang yn y gwyddorau ffisegol	0	6	0	0
Cemeg	274	299	267	256
Ffiseg	147	136	131	158
Gwyddoniaeth fforensig ac archaeolegol	206	309	253	278
Seryddiaeth	56	55	44	52
Daeareg	179	182	176	192
Eigioneg	137	134	122	107
Gwyddorau daearyddol ac amgylcheddol ffisegol a daearol	487	463	431	492
Eraill yn y gwyddorau ffisegol	16	14	19	20
Cyfanswm	1,502	1,597	1,443	1,554



Dechreuwyr rhan-amser

Yn 2002/03 a 2003/04 y prif bynciau a oedd yn ffurfio cyfran fwyaf y dechreuwyr rhan-amser yn y Gwyddorau Ffisegol oedd Cemeg a Gwyddorau Daearyddol ac Amgylcheddol Ffisegol a Daearol. Gyda'i gilydd, roedd y rhain yn cynrychioli 80 y cant o'r holl ddechreuwyr rhan-amser yn y Gwyddorau Ffisegol yn ystod 2002/03 a 57 y cant yn ystod 2003/04. Yn 2004/05, roedd y gyfran fwyaf (57 y cant) o'r holl ddechreuwyr rhan-amser yn y Gwyddorau Ffisegol yn cynnwys y Gwyddorau Daearyddol ac Amgylcheddol Ffisegol a Daearol, Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol a Daeareg. Yn 2005/06 roedd 51 y cant o'r dechreuwyr rhan-amser yn astudio Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol.

Rhwng 2004/05 a 2005/06 cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser ar gyrsiau Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol bron i chwe gwaith. Gellir esbonio'r gostyngiad mawr yn nifer y dechreuwyr rhan-amser a oedd yn dechrau ar gyrsiau Cemeg trwy lai o ysgoloriaethau ymchwil cysylltiol yn y pwnc hwn ym Mhrifysgol Morgannwg.

Nid oedd unrhyw ddechreuwyr rhan-amser ar raglenni â sail eang yn y Gwyddorau Ffisegol.

Tabl 6d: Dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Ffisegol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Rhan Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Rhaglenni â sail eang yn y gwyddorau ffisegol	0	0	0	0
Cemeg	248	108	12	16
Ffiseg	+	9	26	35
Gwyddoniaeth fforensig ac archaeolegol	27	40	42	249
Seryddiaeth	11	36	22	34
Daeareg	10	24	40	35
Eigioneg	19	17	10	6
Gwyddorau daearyddol ac amgylcheddol ffisegol a daearol	57	80	62	37
Eraill yn y gwyddorau ffisegol	*	18	40	74
Cyfanswm	382	332	254	485



Holl ddechreuwyr

Y pynciau a oedd â'r gyfran fwyaf o ddechreuwyr a oedd yn astudio'n rhan-amser yn ystod 2005/06 oedd Eraill yn y Gwyddorau Ffisegol, Seryddiaeth a Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol. Cynyddodd gyfran y dechreuwyr a oedd yn astudio pynciau Eraill yn y Gwyddorau Ffisegol yn rhan-amser o 11 y cant yn 2002/03 i 79 y cant yn 2005/06, tra cynyddodd y gyfran a oedd yn astudio Seryddiaeth o 16 y cant i 39 y cant a'r gyfran a oedd yn astudio Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol o 12 y cant i 47 y cant yn ystod y cyfnod. Cyfran y dechreuwyr a oedd yn astudio Cemeg ar sail ran-amser oedd 48 y cant yn 2002/03 a 27 y cant yn 2003/04, ond gostyngodd hyn i 6 y cant yn 2005/06.



Cymwysedigion llawn amser

Y prif bynciau a oedd yn ffurfio cyfran fwyaf y cymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol oedd Cemeg a Gwyddorau Daearyddol ac Amgylcheddol Ffisegol a Daearol a oedd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli ychydig dros hanner yr holl gymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol ym mhob blwyddyn, ac eithrio 2005/06 pan oeddent yn cynrychioli 49 y cant.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y cymwysedigion llawn amser yn ystod y cyfnod yng Ngwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol, a gynyddodd 75 y cant i 185 yn 2005/06.

Nid oedd unrhyw gymwysedigion llawn amser ar raglenni â sail eang yn y Gwyddorau Ffisegol.

Tabl 6e: Cymwysedigion ar gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Ffisegol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Llawn-Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Rhaglenni â sail eang yn y gwyddorau ffisegol	0	0	0	0
Cemeg	170	164	196	183
Ffiseg	96	92	92	114
Gwyddoniaeth fforensig ac archaeolegol	106	123	168	185
Seryddiaeth	52	59	53	46
Daeareg	136	157	129	161
Eigioneg	89	78	133	105
Gwyddorau daearyddol ac amgylcheddol ffisegol a daearol	357	402	414	399
Eraill yn y gwyddorau ffisegol	8	9	9	6
Cyfanswm	1,014	1,084	1,193	1,198



Cymwysedigion rhan-amser

Yn 2002/03 a 2003/04 cymhwysodd dri chwarter y cymwysedigion rhan-amser yn y Gwyddorau Ffisegol mewn Cemeg, Gwyddorau Daearyddol ac Amgylcheddol Ffisegol a Daearol a chyrsiau eraill yn y Gwyddorau Ffisegol ac yn 2004/05, cododd y gyfran hon i 83 y cant. Fodd bynnag, yn 2005/06 disodlwyd Cemeg gan Wyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol fel un o'r tri phwnc a oedd yn ffurfio'r gyfran fwyaf.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn ystod y cyfnod mewn Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol a gynyddodd o lai na phump o gymwysedigion yn 2002/03 i 83 o gymwysedigion yn 2005/06.

Nid oedd unrhyw gymwysedigion rhan-amser mewn raglenni â sail eang yn y Gwyddorau Ffisegol.

Tabl 6f: Cymwysedigion o gyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Ffisegol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Rhan-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Rhaglenni â sail eang yn y gwyddorau ffisegol	0	0	0	0
Cemeg	12	16	20	17
Ffiseg	*	7	5	11
Gwyddoniaeth fforensig ac archaeolegol	*	*	*	83
Seryddiaeth	*	0	*	*
Daeareg	*	+	7	9
Eigioneg	8	7	13	+
Gwyddorau daearyddol ac amgylcheddol ffisegol a daearol	25	35	54	57
Eraill yn y gwyddorau ffisegol	12	16	78	80
Cyfanswm	66	88	183	268



Holl gymwysedigion

Y pynciau a oedd â chyfran fwyaf y cymwysedigion o astudiaethau rhan-amser yn 2005/06 oedd Eraill yn y Gwyddorau Ffisegol a Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol. Cynyddodd gyfran y cymwysedigion mewn cyrsiau Eraill yn y Gwyddorau Ffisegol a gafodd gymwysterau ar ôl astudio'n rhan-amser o 60 y cant yn 2002/03 i 93 y cant yn 2005/06. Yng Ngwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol, cynyddodd y gyfran hon o 2 y cant i 31 y cant yn ystod y cyfnod.



7. Gwyddorau Mathemategol

Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn y Gwyddorau Mathemategol gyda'r Brifysgol Agored. Yn 2002/03 codiodd y Brifysgol Agored y rhan fwyaf o'i darpariaeth gyda chod Cyfunol. Mae'n bosibl felly bod dechreuwyr a chymwysedigion rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn y Brifysgol Agored yn 2002/03 wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y maes pwnc Cyfunol.

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06 dechreuodd 305 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 29 y cant o gymharu â nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Ychydig iawn o ddechreuwyr rhan-amser oedd ar gyrsiau yn y Gwyddorau Mathemategol yn ystod 2002/03, fel y nodwyd uchod, ond rhwng 2003/04 a 2005/06 cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser o bron i hanner. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 22 y cant o'r holl ddechreuwyr yn y Gwyddorau Mathemategol yn 2005/06, sef cynnydd o 16 y cant o gymharu â 2003/04.

Wrth i nifer y myfyrwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau rhan-amser gynyddu, cynyddodd y gweithgarwch rhan-amser ymhlith dechreuwyr hefyd. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi cynyddu o 2 yn 2002/03 i 31 yn 2005/06. Disgynnodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser o 48 y cant yn 2002/03 i 36 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol gynyddu 29 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefelau mynediad unigol. Roedd nifer y dechreuwyr llawn amser ôl-raddedig yn y Gwyddorau Mathemategol yn 2005/06, sef 33, yn debyg i'r nifer ar ddechrau'r cyfnod, er bod y nifer hon yn uwch yn ystod y blynyddol cyfamserol. Yn 2005/06, dechreuodd 272 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef cynnydd o 36 y cant ers 2002/03 ac roedd llai na phump o ddechreuwyr israddedig eraill yn 2002/03 a dim o 2003/04 ymlaen. Felly, roedd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser yn ystod y cyfnod yn dechrau ar gyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Fel y nodwyd uchod, ychydig iawn o ddechreuwyr rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol a gofnodwyd yn y maes pwnc hwn yn 2002/03, felly mae cynnydd mawr yn ymddangos yn ystod y cyfnod. O ystyried y newidiadau i nifer y dechreuwyr rhan-amser ar wahanol lefelau mynediad rhwng 2003/04 a 2005/06, gellir gweld bod nifer y dechreuwyr rhan-amser gradd cyntaf wedi cynyddu 14 y cant i 40 yn 2005/06 a bod nifer y dechreuwyr rhan-amser israddedig eraill wedi cynyddu dros deirgwaith i 36 yn 2005/06. Rhwng 2003/04 a 2005/06, disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser ôl-raddedig bron i draean. Roedd y gyfran fwyaf o ddechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau gradd cyntaf.

Roedd newidiadau i faint astudiaethau rhan-amser ar bob lefel yn dilyn patrwm tebyg i nifer y dechreuwyr rhan-amser rhwng 2003/04 a 2005/06, er bod CALI yn isel iawn, yn enwedig ar lefelau ôl-raddedig ac israddedig eraill.

Tabl 7a: Dechreuwyr ar gyrsiau yn y Gwyddorau Mathemategol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	+	199	*	236
	2003/04	47	247	0	294
	2004/05	38	261	0	299
	2005/06	33	272	0	305
	Newid net	*	72	*	69
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	*	0	*	*
	2003/04	11	35	11	57
	2004/05	*	26	11	+
	2005/06	+	40	36	+
	Newid net	+	40	+	80
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	1	0	1	2
	2003/04	3	13	3	19
	2004/05	1	10	4	15
	2005/06	2	16	13	31
	Newid net	1	16	11	29













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 208 o fyfyrwyr gymhwyster yn y Gwyddorau Mathemategol ar ôl astudio'n llawn amser, sef gostyngiad o 2 y cant o gymharu â'r nifer yn 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau yn y Gwyddorau Mathemategol ar ôl astudio'n rhan-amser o 10 yn 2002/03 o 41 yn 2005/06.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 17 y can o'r holl gymwysterau a gafwyd yn y Gwyddorau Mathemategol yn ystod 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu 12 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 4 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol ddisgyn 2 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Yn ystod y cyfnod, bu bron i nifer y cymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol a enillodd gymwysterau ôl-raddedig ddyblu, disgynnodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 10 y cant i 174 ac roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau israddedig eraill yn isel iawn bob blwyddyn. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd gan fyfyrwyr llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Nifer fach o fyfyrwyr rhan-amser a enillodd gymwysterau yn y Gwyddorau Mathemategol ar lefel ôl-raddedig a gradd cyntaf yn ystod y cyfnod, ond cynyddodd nifer y rheiny a gymhwysodd ar lefel israddedigion eraill o 19 yn 2003/04 i 32 yn 2005/06.

Tabl 7b: Cymwysedigion o gyrsiau yn y Gwyddorau Mathemategol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	+	193	*	213
	2003/04	+	167	*	192
	2004/05	31	172	5	207
	2005/06	+	174	*	208
	Newid net	15	-19	-1	-5
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	+	*	0	10
	2003/04	*	+	19	36
	2004/05	+	*	35	47
	2005/06	*	+	32	41
	Newid net	-3	2	32	31













Gwyddorau Mathemategol yn ôl y Prif Bwnc

Dechreuwyr llawn amser

Mathemateg oedd y prif bwnc a oedd yn ffurfio cyfran fwyaf y dechreuwyr llawn amser ym maes pwnc y Gwyddorau Mathemategol, gan gynrychioli 91 y cant o'r holl ddechreuwyr llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn 2002/03, gan godi i 97 y cant yn 2005/06.

Cynyddodd nifer y dechreuwyr llawn amser ym Mathemateg 38 y cant i 294 yn 2005/06.

Tabl 7c: Dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Llawn-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Rhaglenni â sail eang yn y gwyddorau mathemategol	0	+	0	0
Mathemateg	214	285	270	294
Ymchwil gweithredol	11	0	9	0
Ystadegau	11	*	15	5
Eraill yn y gwyddorau mathemategol a gwyddorau cyfrifiadurol	0	0	5	6
Cyfanswm	236	294	299	305



Dechreuwyr rhan-amser

Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae'n bosibl bod y dechreuwyr rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn y Brifysgol Agored yn 2002/03 wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y maes pwnc Cyfunol, felly mae nifer y deuchreuwyr ar gyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol ar gyfer 2002/03 yn isel.

Unwaith eto, Mathemateg oedd y prif bwnc a oedd yn cynrychioli'r rhan fwyaf o faes pwnc y Gwyddorau Mathemategol, gan gynrychioli 79 y cant o'r holl ddechreuwyr rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn ystod 2003/04, 71 y cant yn ystod 2004/05 ac 82 y cant yn ystod 2005/06.

Mae nifer y dechreuwyr rhan-amser ar gyrsiau Mathemateg wedi cynyddu 53 y cant ers 2003/04, gan gyrraedd 69 yn 2005/06.

Nid oedd unrhyw ddechreuwyr ar gyrsiau mewn rhaglenni â sail eang yn y Gwyddorau Mathemategol ac Ymchwil Gweithredol.

Tabl 7d: Dechreuwyr ar gyrsiau rhan amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Rhan Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Rhaglenni â sail eang yn y gwyddorau mathemategol	0	0	0	0
Mathemateg	*	45	29	69
Ymchwil gweithredol	0	0	0	0
Ystadegau	0	*	*	+
Eraill yn y gwyddorau mathemategol a gwyddorau cyfrifiadurol	0	+	10	9
Cyfanswm	*	57	+	+



Holl ddechreuwyr

Y pynciau a oedd â chyfran fwyaf y myfyrwyr a oedd yn astudio'n rhan-amser yn 2005/06 oedd Eraill yn y Gwyddorau Mathemategol ac Ystadegau, er bod cyfanswm y dechreuwyr yn y pynciau hyn yn isel.



Cymwysedigion llawn amser

Mathemateg oedd y prif bwnc a oedd yn ffurfio mwyafrif y cymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol, gan gynrychioli 85 y cant o'r holl gwymwysedigion llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn 2002/03, gan godi i 96 y cant yn 2005/06.

Cynyddodd y nifer a enillodd gymhwyster ar ôl astudio Mathemateg yn llawn amser 10 y cant yn ystod y cyfnod, gan gyrraedd 199 yn 2005/06.

Nid oedd unrhyw gymwysedigion llawn amser mewn rhaglenni â sail eang yn y Gwyddorau Mathemategol ac ychydig iawn mewn Eraill yn y Gwyddorau Mathemategol.

Tabl 7e: Cymwysedigion o gyrsiau llawn amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Llawn-Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Rhaglenni â sail eang yn y gwyddorau mathemategol	0	0	0	0
Mathemateg	181	+	184	199
Ymchwil gweithredol	14	0	8	*
Ystadegau	17	*	15	5
Eraill yn y gwyddorau mathemategol a gwyddorau cyfrifiadurol	0	0	0	*
Cyfanswm	213	192	207	208



Cymwysedigion rhan-amser

Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, mae'n bosibl bod y cymwysedigion rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn y Brifysgol Agored yn 2002/03 wedi'u cynnwys yn y ffigurau ar gyfer y maes pwnc Cyfunol, felly mae nifer y cymwysedigion ar gyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol ar gyfer 2002/03 yn isel.

Unwaith eto, Mathemateg oedd y prif bwnc a oedd yn cynrychioli'r rhan fwyaf o faes pwnc y Gwyddorau Mathemategol, gyda 75 y cant o'r holl gymwysedigion rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn 2003/04 ac 87 y cant yn 2005/06.

Mae nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn Mathemateg wedi cynyddu 33 y cant ers 2003/04 gan gyrraedd 36 yn 2005/06.

Nid oedd unrhyw fyfyrwyr rhan-amser wedi cymhwyso mewn rhaglenni â sail eang yn y Gwyddorau Mathemategol ac Ymchwil Gweithredol ac ychydig iawn a oedd wedi cymhwyso mewn Eraill yn y Gwyddorau Mathemategol.

Tabl 7f: Cymwysedigion o gyrsiau rhan-amser yn y Gwyddorau Mathemategol yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Rhan-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Rhaglenni â sail eang yn y gwyddorau mathemategol	0	0	0	0
Mathemateg	10	27	38	36
Ymchwil gweithredol	0	0	0	0
Ystadegau	0	+	9	5
Eraill yn y gwyddorau mathemategol a gwyddorau cyfrifiadurol	0	*	0	0
Cyfanswm	10	36	47	41



Holl gymwysedigion

Cynyddodd gyfran y cymwysedigion Mathemateg a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser o 13 y cant yn 2003/04 i 15 y cant yn 2005/06.



8. Cyfrifiadureg

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 1,275 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Cyfrifiadureg mewn SAUau yng Nghymru, sef gostyngiad o 26 y cant o gymharu â nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser ar gyrsiau Cyfrifiadureg 17 y cant i 1,009 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 44 y cant o'r holl ddechreuwyr Cyfrifiadureg yn 2005/06, sef cynnydd o dri phwynt canran ers 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau rhan-amser ddisgyn, disgynnodd y gweithgarwch rhan-amser ar gyfradd uwch. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi disgyn 38 y cant o 505 yn 2002/03 i 312 yn 2005/06. Disgynnodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser 42 y cant yn 2002/03 i 31 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Cyfrifiadureg llawn amser ostwng 26 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 230 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef gostyngiad o 24 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 846 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef gostyngiad o 23 y cant ers 2002/03. Disgynnodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser 38 y cant i 199 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda dechreuwyr llawn amser, roedd y gostyngiad i nifer y dechreuwyr rhan-amser ar gyrsiau Cyfrifiadureg yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Yn 2005/06 dechreuodd 92 o ddechreuwyr ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser, sef gostyngiad o 18 y cant o gymharu â 2002/03 a chynyddodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau graddau cyntaf rhan-amser o fwy na hanner i 112 yn 2005/06. Disgynnodd nifer y rheiny a oedd yn dechrau ar astudiaethau israddedig eraill ar sail ran-amser 22 y cant i 805 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill.

Wrth i nifer y dechreuwyr rhan-amser ar gyrsiau Cyfrifiadureg ar bob lefel ddisgyn neu gynyddu, dilynodd maint yr astudiaethau. Disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel ôl-raddedig 26 y cant ac ar lefel israddedigion eraill 46 y cant. Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel gradd cyntaf 54 y cant. Disgynnodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 44 y cant i 40 y cant ac o 41 y cant i 29 y cant ar lefel israddedigion eraill. Roedd y CALl cyfartalog ar gyfer graddau cyntaf yn 40 y cant yn 2005/06 a oedd yn debyg i'r nifer ar ddechrau'r cyfnod.

Tabl 8a: Dechreuwyr ar gyrsiau Cyfrifiadureg yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	305	1,094	322	1,720
	2003/04	299	995	315	1,609
	2004/05	299	754	239	1,292
	2005/06	230	846	199	1,275
	Newid net	-75	-248	-123	-445
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	112	72	1,033	1,217
	2003/04	116	139	808	1,063
	2004/05	74	124	860	1,058
	2005/06	92	112	805	1,009
	Newid net	-20	40	-229	-208
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	50	29	426	505
	2003/04	47	60	294	401
	2004/05	31	51	279	361
	2005/06	37	44	231	312
	Newid net	-13	16	-195	-193













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 923 o fyfyrwyr gymhwyster mewn Cyfrifiadureg trwy astudio'n llawn amser, sef cynnydd o 10 y cant o gymharu â'r nifer yn 2002/03, ond gostyngiad o 27 y cant o gymharu â'r nifer yn 2004/05 (1,266).

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau mewn Cyfrifiadureg ar ôl astudio'n rhan-amser 32 y cant i 691 yn 2005/06. Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 43 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd mewn Cyfrifiadureg yn 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi codi 4 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 38 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Cyfrifiadureg gynyddu 10 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Cyfrifiadureg a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 9 y cant i 165 yn 2005/06, cynyddodd nifer y rheiny a enillodd graddau cyntaf 22 y cant i 593 a gostyngodd nifer y rheiny a enillodd gymhwyster israddedig arall 19 y cant i 165 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn Cyfrifiadureg o 32 y cant yn ystod y cyfnod. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion israddedig eraill a gynyddodd o 40 y cant yn ystod y cyfnod i 552 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig o 3 y cant i 72 yn 2005/06 a nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf o 9 y cant i 68. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd trwy astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau israddedig eraill.

Tabl 8b: Cymwysedigion o gyrsiau Cyfrifiadureg yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	152	486	204	841
	2003/04	138	658	237	1,033
	2004/05	270	670	327	1,266
	2005/06	165	593	165	923
	Newid net	13	107	-39	82
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	70	62	393	525
	2003/04	70	59	531	660
	2004/05	88	73	516	677
	2005/06	72	68	552	691
	Newid net	2	6	159	166













Cyfrifiadureg yn ôl y Prif Bwnc

Dechreuwyr llawn amser

Cyfrifiadureg oedd y prif bwnc a ffurfiodd cyfran fwyaf y dechreuwyr llawn amser ym maes pwnc Cyfrifiadureg, gan gynrychioli 91 y cant o'r holl ddechreuwyr llawn amser mewn Cyfrifiadureg yn 2002/03, er i'r gyfran hon ddisgyn i 87 y cant yn 2005/06 wrth i gyfran y dechreuwyr llawn amser a oedd yn astudio Systemau Gwybodaeth gynyddu.

Systemau Gwybodaeth a welodd y cynnydd mwyaf o ran dechreuwyr llawn amser yn ystod y cyfnod, gan godi 42 y cant i 128 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod gostyngodd nifer y deuchreuwyr llawn amser a oedd yn astudio Cyfrifiadureg bron i draean i 1,110 yn 2005/06.

Ychydig iawn o fyfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau llawn amser mewn Deallusrwydd Artiffisial.

Tabl 8c: Dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Cyfrifiadureg yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Llawn-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Cyfrifiadureg	1,560	1,482	1,131	1,110
Systemau gwybodaeth	90	81	108	128
Peirianneg feddalwedd	70	46	40	+
Deallusrwydd artiffisial	0	0	0	*
Eraill yn y gwyddorau cyfrifiadura	0	0	13	0
Cyfanswm	1,720	1,609	1,292	1,275



Dechreuwyr rhan-amser

Cyfrifiadureg oedd y prif bwnc a oedd yn ffurfio cyfran fwyaf y dechreuwyr rhan-amser ym maes pwnc Cyfrifiadureg hefyd, gan gynrychioli 90 y cant o'r holl ddechreuwyr rhan-amser mewn Cyfrifiadureg yn 2002/03, er i hyn ddisgyn i 71 y cant yn 2005/06 wrth i gyfran y dechreuwyr llawn amser a oedd yn astudio Systemau Gwybodaeth gynyddu. Mae bron i hanner y dechreuwyr ar gyrsiau Systemau Gwybodaeth yn astudio gyda'r Brifysgol Agored, ond fel yr esboniwyd yn flaenorol, codiwyd y rhan fwyaf o ddarpariaeth y Brifysgol Agored fel pynciau Cyfunol yn 2002/03, felly mae'n bosibl bod dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Systemau Gwybodaeth gyda'r Brifysgol Agored yn 2002/03 wedi'u cynnwys yn nadansoddiad y maes pwnc Cyfunol.

Cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Systemau Gwybodaeth bron i ddwywaith rhwng 2003/04 a 2005/06 gan gyrraedd 230 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser ar gyrsiau Cyfrifiadureg dros draean i 711 yn 2005/06. Ni ddechreuodd unrhyw fyfyrwyr rhan-amser ar gyrsiau Deallusrwydd Artiffisial.

Tabl 8d: Dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Cyfrifiadureg yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Rhan Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Cyfrifiadureg	1,097	876	857	711
Systemau gwybodaeth	18	118	149	230
Peirianneg feddalwedd	102	69	52	57
Deallusrwydd artiffisial	0	0	0	0
Eraill yn y gwyddorau cyfrifiadura	0	0	0	11
Cyfanswm	1,217	1,063	1,058	1,009



Holl ddechreuwyr

Yn 2005/06 roedd cyfrannau uchel o ddechreuwyr rhan-amser yn astudio Cyfrifiadureg, Systemau Gwybodaeth a Pheirianneg Feddalwedd. Cyfran y dechreuwyr a oedd yn astudio Cyfrifiadureg yn rhan-amser yn ystod y cyfnod oedd tua 40 y cant, ac ar gyfer Peirianneg Feddalwedd roedd o gwmpas 60 y cant. Cyfran y dechreuwyr a oedd yn astudio Systemau Gwybodaeth yn rhan-amser oedd 64 y cant yn 2005/06.

Nid oedd unrhyw ddechreuwyr yn astudio pynciau Eraill mewn Cyfrifiadureg yn 2002/03 a 2003/04. Yn 2004/05 dim ond dechreuwyr llawn amser a oedd yn astudio'r pwnc hwn ac yn 2005/06 dim ond dechreuwyr rhan-amser a oedd yn ei astudio.



Cymwysedigion llawn amser

Cyfrifiadureg oedd y prif bwnc a oedd yn ffurfio cyfran fwyaf y cymwysedigion llawn amser ym maes pwnc Cyfrifiadureg, gan gynrychioli 82 y cant o'r holl gymwysedigion llawn amser mewn Cyfrifiadureg yn 2002/03 a gynyddodd i 86 y cant yn 2005/06.

Bob blwyddyn gwelwyd cynnydd yn nifer y cymwysedigion a enillodd gymhwyster mewn Cyfrifiadureg ar ôl astudio'n llawn amser, ac eithrio 2005/06 pan disgynnodd y nifer yn is na'r lefel yn 2003/04.

Nid oedd unrhyw gymwysedigion llawn amser mewn Deallusrwydd Artiffisial na phynciau Eraill mewn Cyfrifiadureg.

Tabl 8e: Cymwysedigion o gyrsiau llawn amser mewn Cyfrifiadureg yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Llawn-Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Cyfrifiadureg	689	931	1,099	795
Systemau gwybodaeth	101	37	103	74
Peirianneg feddalwedd	51	65	64	55
Deallusrwydd artiffisial	0	0	0	0
Eraill yn y gwyddorau cyfrifiadura	0	0	0	0
Cyfanswm	841	1,033	1,266	923



Cymwysedigion rhan-amser

Cyfrifiadureg oedd y prif bwnc a oedd yn ffurfio'r gyfran fwyaf o gymwysedigion rhan-amser ym maes pwnc Cyfrifiadureg hefyd, gan gynrychioli 97 y cant o'r holl gymwysedigion rhan-amser mewn Cyfrifiadureg yn 2002/03, ond disgynnodd hyn i 84 y cant yn 2005/06 wrth i gyfran y cymwysedigion rhan-amser mewn Systemau Gwybodaeth gynyddu.

Yn ystod y cyfnod, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn Systemau Gwybodaeth, a gododd o ychydig o dan 20 yn 2002/03 i ychydig dros 100 yn 2005/06.

Nid oedd unrhyw gymwysedigion rhan-amser mewn Deallusrwydd Artiffisial nac Eraill mewn Cyfrifiadureg.

Tabl 8f: Cymwysedigion o gyrsiau rhan-amser mewn Cyfrifiadureg yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Rhan-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Cyfrifiadureg	509	625	552	577
Systemau gwybodaeth	+	+	117	+
Peirianneg feddalwedd	*	*	8	*
Deallusrwydd artiffisial	0	0	0	0
Eraill yn y gwyddorau cyfrifiadura	0	0	0	0
Cyfanswm	525	660	677	691



Holl gymwysedigion

Yn 2005/06 roedd cyfrannau uchel o gymwysedigion rhan-amser mewn Cyfrifiadureg a Systemau Gwybodaeth. Cyfran y cymwysedigion Cyfrifiadureg a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n rhan-amser oedd 42 y cant ar ddechrau'r cyfnod ac ar ddiwedd y cyfnod, tra cynyddodd gyfran y cymwysedigion rhan-amser mewn Systemau Gwybodaeth o 13 y cant yn 2002/03 i 60 y cant yn 2005/06.



9. Peirianneg a Thechnoleg

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 2,143 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg a Thechnoleg mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 2 y cant o gymharu â nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Peirianneg a Thechnoleg 4 y cant i 1,728 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 45 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Peirianneg a Thechnoleg yn 2005/06, sef cynnydd o un pwynt canran ers 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a oedd yn dechrau ar gyrsiau rhan-amser gynyddu, gostyngodd y gweithgarwch rhan-amser ymhlith dechreuwyr. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi disgyn 8 y cant i 705 yn 2005/06 a bod y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser wedi disgyn o 46 y cant yn 2002/03 i 41 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau Peirianneg a Technoleg gynyddu 2 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 320 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef cynnydd o 7 y cant o gymharu o 2002/03 a dechreuodd 1,475 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef cynnydd o ychydig yn llai nag un y cant ers 2002/03. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser 2 y cant i 348 yn 2005/06 Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda myfyrwyr llawn amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr rhan-amser ar gyrsiau Peirianneg a Thechnoleg yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Yn 2005/06, dechreuodd 161 o ddechreuwyr ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser, sef cynnydd o 21 y cant ers 2002/03 a chynyddodd nifer y dechreuwyr a oedd yn dechrau ar astudiaethau israddedig eraill rhan-amser bron i 8 y cant i 1,328. Disgynnodd nifer y rheiny a oedd yn dechrau ar gyrsiau gradd cyntaf rhan-amser 22 y cant i 239 erbyn 2005/06. Roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill.

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Peirianneg a Thechnoleg rhan-amser newid ar bob lefel, ni newidiodd maint yr astudiaethau ar bob lefel i'r un cyfeiriad nac ar yr un cyflymder o reidrwydd. Disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel ôl-raddedig 2 y cant, o 29 y cant ar lefel gradd cyntaf ac 2 y cant ar lefel israddedigion eraill. Disgynnodd y

CALI cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 48 y cant yn 2002/-3 i 39 y cant yn 2005/06, o 51 y cant i 47 y cant ar lefel gradd cyntaf ac o 44 y cant i 40 y cant ar lefel israddedigion eraill.

Tabl 9a: Dechreuwyr ar gyrsiau Peirianneg a Thechnoleg yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	300	1,465	340	2,105
	2003/04	299	1,689	358	2,346
	2004/05	301	1,527	334	2,162
	2005/06	320	1,475	348	2,143
	Newid net	20	9	8	37
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	134	307	1,227	1,667
	2003/04	168	364	1,176	1,708
	2004/05	145	224	1,332	1,700
	2005/06	161	239	1,328	1,728
	Newid net	28	-68	101	61
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	64	157	543	764
	2003/04	66	177	560	804
	2004/05	62	95	614	771
	2005/06	62	112	530	705
	Newid net	-1	-46	-12	-59













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 1,513 o fyfyrwyr gymhwyster mewn Peirianneg a Thechnoleg trwy astudio'n llawn amser, sef cynnydd o 23 y cant o gymharu â'r nifer yn 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau mewn Peirianneg a Thechnoleg ar ôl astudio'n rhan-amser 34 y cant i 1,221 yn 2005/06. Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 45 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd mewn Peirianneg a Thechnoleg yn 2005/06. Mae'r gyfran hon 2 bwynt canran yn uwch nag ar ddechrau'r cyfnod, sef 42 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion o gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg a Thechnoleg gynyddu 23 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedigion a enillodd gymwysterau ôl-raddedig ar ôl astudio'n llawn amser 10 y cant i 242 yn 2005/06, cynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 20 y cant i 1,026 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd gymhwyster israddedig arall 58 y cant i 245 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd y dilyn astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Cynyddodd nifer y cymwysedigion o gyrsiau Peirianneg a Thechnoleg rhan-amser 34 y cant yn ystod y cyfnod. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion israddedig eraill yn 2004/05. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig fwy na dau draean i 112 yn 2005/06 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 13 y cant i 191. Cynyddodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill 37 y cant i 918. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau israddedig eraill.

Tabl 9b: Cymwysedigion o gyrsiau Peirianneg a Thechnoleg yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	221	858	155	1,234
	2003/04	189	869	197	1,254
	2004/05	280	969	277	1,526
	2005/06	242	1,026	245	1,513
	Newid net	21	168	90	279
Cymwysedigion Rhan-amser	2002/03	67	169	672	908
	2003/04	49	152	640	841
	2004/05	127	203	973	1,303
	2005/06	112	191	918	1,221
	Newid net	45	22	246	313













Peirianneg a Thechnoleg yn ôl y Prif Bwnc

Dechreuwyr llawn amser

Ym mhob blwyddyn, roedd bron i draean o'r dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg a Thechnoleg yn astudio Peirianneg Electronig a Thrydanol. Roedd Peirianneg Gyffredinol, Sifil, Fecanyddol ac Electronig a Thrydanol gyda'i gilydd yn cynrycioli dros dri chwarter o'r dechreuwyr llawn amser mewn Peirianneg a Thechnoleg bob blwyddyn.

Yn ystod y cyfnod, disgynnodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg Gyffredinol chwarter, disgynnodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg Fecanyddol ddegfed a chynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Peirianneg Sifil ddau bumed. Roedd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg Electronig a Thrydanol yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod. Cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg Awyrofod bron i ddwywaith yn ystod y cyfnod.

Ychydig iawn o fyfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau llawn amser mewn Cerameg a Gwydr a Thechnoleg Forwrol.

Tabl 9c: Dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg a Thechnoleg yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Llawn-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Peirianneg gyffredinol	318	363	300	237
Peirianneg sifil	308	349	372	371
Peirianneg fecanyddol	413	413	358	366
Peirianneg awyrofod	68	89	93	154
Peirianneg electronig a thrydanol	622	688	633	640
Peirianneg gynhyrchu a gweithgynhyrchu	88	95	80	73
Peirianneg gemegol, proses ac egni	30	35	24	24
Eraill mewn peirianneg	65	75	19	15
Technoleg defnyddiau	12	9	0	0
Cerameg a gwydr	*	0	0	0
Technoleg defnyddiau heb ei phennu	56	47	44	61
Technoleg forwrol	0	5	0	0
Biotechnoleg ddiwydiannol	*	7	6	9
Eraill mewn technoleg	118	172	234	193
Cyfanswm	2,105	2,346	2,162	2,143



Dechreuwyr rhan-amser

Ym mhob blwyddyn, roedd tua traean y dechreuwyr rhan-amser mewn Peirianneg a Thechnoleg yn astudio Peirianneg Electronig a Thrydanol. Gyda'i gilydd, roedd Peirianneg Gyffredinol, Sifil, Fecanyddol ac Electronig a Thrydanol yn cynrychioli bron i dri chwarter o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Peirianneg a Thechnoleg bob blwyddyn.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser Eraill mewn Technoleg yn fawr o 31 yn 2002/03 i 216 yn 2005/06. Disgynnodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Peirianneg Gynhyrchu a Gweithgynhyrchu fwy na hanner tra cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Peirianneg Sifil 50 y cant ac ar gyrsiau Peirianneg Gyffredinol 40 y cant yn ystod y cyfnod.

Nid oedd unrhyw ddechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Technoleg Forwrol na Biotechnoleg Ddiwydiannol ac ychydig iawn a ddechreuodd ar gyrsiau Cerameg a Gwydr.

Tabl 9d: Dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Peirianneg a Technoleg yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Ddechreuwyr Rhan Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Peirianneg gyffredinol	226	262	241	316
Peirianneg sifil	107	192	161	160
Peirianneg fecanyddol	300	242	283	266
Peirianneg awyrofod	113	89	125	97
Peirianneg electronig a thrydanol	600	557	545	536
Peirianneg gynhyrchu a gweithgynhyrchu	216	164	+	94
Peirianneg gemegol, proses ac egni	0	44	0	0
Eraill mewn peirianneg	64	40	132	+
Technoleg defnyddiau	7	+	0	0
Cerameg a gwydr	*	0	0	0
Technoleg defnyddiau heb ei phennu	*	*	*	*
Technoleg forwrol	0	0	0	0
Biotechnoleg ddiwydiannol	0	0	0	0
Eraill mewn technoleg	31	107	139	216
Cyfanswm	1,667	1,708	1,700	1,728



Holl ddechreuwyr

Yn 2005/06, roedd 74 y cant o'r dechreuwyr ar gyrsiau Eraill mewn Peirianneg yn astudio'n rhan amser o gymharu â 50 y cant yn 2002/03 ac roedd 57 y cant o'r dechreuwyr ar gyrsiau Peirianneg Gyffredinol yn 2005/06 yn astudio'n rhan-amser o gymharu â 42 y cant ar ddechrau'r cyfnod. Disgynnodd gyfran y rheiny a oedd yn astudio Peirianneg Gynhyrchu a Gweithgynhyrchu ar sail ran-amser o 71 y cant yn 2002/03 i 56 y cant erbyn diwedd y cyfnod. Cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser Eraill mewn Technoleg o 21 y cant yn 2002/03 i 53 y cant yn 2005/06.



Cymwysedigion llawn amser

Ym mhob blwyddyn, roedd dros chwarter y cymwysedigion llawn amser mewn Peirianneg a Thechnoleg yn astudio Peirianneg Electronig a Thrydanol. Gyda'i gilydd, roedd cymwysedigion mewn Peirianneg Gyffredinol, Sifil, Fecanyddol ac Electronig a Thrydanol yn cynrychioli dros dri chwarter o'r holl gymwysedigion llawn amser mewn Peirianneg a Thechnoleg bob blwyddyn.

Yn ystod y cyfnod, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion llawn amser mewn cyrsiau Eraill mewn Technoleg a gynyddodd o 16 yn 2002/03 i 142 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Peirianneg Gynhyrchu a Gweithgynhyrchu o 75 y cant ac o 57 y cant mewn Peirianneg Gyffredinol yn ystod y cyfnod.

Nid oedd unrhyw gymwysedigion llawn amser mewn Cerameg a Gwydr.

Tabl 9e: Cymwysedigion o gyrsiau llawn amser mewn Peirianneg a Thechnoleg yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Llawn-Amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Peirianneg gyffredinol	160	167	228	252
Peirianneg sifil	214	183	215	248
Peirianneg fecanyddol	247	228	282	239
Peirianneg awyrofod	50	61	37	73
Peirianneg electronig a thrydanol	330	367	472	400
Peirianneg gynhyrchu a gweithgynhyrchu	44	46	71	77
Peirianneg gemegol, proses ac egni	35	42	31	31
Eraill mewn peirianneg	36	26	33	15
Technoleg defnyddiau	22	12	*	*
Cerameg a gwydr	0	0	0	0
Technoleg defnyddiau heb ei phennu	71	59	50	33
Technoleg forwrol	0	16	+	0
Biotechnoleg ddiwydiannol	9	10	5	*
Eraill mewn technoleg	16	38	95	142
Cyfanswm	1,234	1,254	1,526	1,513



Cymwysedigion rhan-amser

Ym mhob blwyddyn, cymhwysodd dros chwarter y cymwysedigion rhan-amser mewn Peirianneg a Thechnoleg mewn Peirianneg Electronig a Thrydanol a dros 15 y cant mewn Peirianneg Fecanyddol.

Cynyddodd nifer y cymwysedigion mewn cyrsiau Eraill mewn Technoleg ar ôl astudio'n rhan-amser yn fawr o 18 yn 2002/03 i 83 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn Peirianneg Gyffredinol hefyd, a gynyddodd fwy na theirgwaith, mewn Peirianneg Awyrofod a chynyddodd bron i deirgwaith ac mewn Peirianneg Sifil a gynyddodd bron i ddwywaith. Disgynnodd nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn Peirianneg Gynhyrchu a Gweithgynhyrchu 63 y cant.

Nid oedd unrhyw gymwysedigion rhan-amser mewn Technoleg Forwrol na Biotechnoleg Ddiwydiannol ac ychydig iawn a gymhwysodd mewn Cerameg a Gwydr.

Tabl 9f: Cymwysedigion o gyrsiau rhan-amser mewn Peirianneg a Thechnoleg yn ôl y Prif Bwnc

	Nifer o Cymwysedigion Rhan-amser			
Prif Bwnc	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Peirianneg gyffredinol	88	137	248	291
Peirianneg sifil	63	82	121	119
Peirianneg fecanyddol	160	126	223	195
Peirianneg awyrofod	24	41	67	69
Peirianneg electronig a thrydanol	385	264	332	349
Peirianneg gynhyrchu a gweithgynhyrchu	131	102	113	49
Peirianneg gemegol, proses ac egni	0	*	21	27
Eraill mewn peirianneg	20	17	71	31
Technoleg defnyddiau	*	+	7	0
Cerameg a gwydr	+	0	0	0
Technoleg defnyddiau heb ei phennu	9	11	15	8
Technoleg forwrol	0	0	0	0
Biotechnoleg ddiwydiannol	0	0	0	0
Eraill mewn technoleg	18	52	86	83
Cyfanswm	908	841	1,303	1,221



Holl gymwysedigion

Cymhwysodd gyfran weddol uchel o fyfyrwyr ym mwyafrif y pynciau ar ôl astudio'n rhan-amser. Cynyddodd gyfran y cymwysedigion mewn pynciau Eraill mewn Peirianneg yn dilyn astudiaethau rhan-amser o 36 y cant yn 2002/03 i 67 y cant yn 2005/06 ac o 35 y cant i 54 y cant mewn Peirianneg Gyffredinol. Disgynnodd gyfran y cymwysedigion o gyrsiau rhan-amser mewn Peirianneg Gynhyrchu a Gweithgynhyrchu o 75 y cant i 39 y cant yn ystod y cyfnod.



10. Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 579 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 24 y cant o gymharu â nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio 21 y cant i 559 yn 2005/06 Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 49 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio yn 2005/06, sef gostyngiad o ychydig yn llai nag un pwynt canran ers 2002/03.

Roedd y cynnydd yn ystod y cyfnod o ran y gweithgarwch rhan-amser ar gyfer dechreuwyr yn fwy na'r cynnydd i nifer y dechreuwyr rhan-amser. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi cynyddu 40 y cant i 302 yn 2005/06 a bod y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser wedi cynyddu o 47 y cant yn 2002/03 i 54 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio gynyddu 24 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 202 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn-amser, sef cynydd o 34 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 296 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd gyntaf lawn amser, sef cynnydd o 9 y cant ers 2002/03. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser bron i ddwywaith i gyrraedd 81 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod, dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd gyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda dechreuwyr llawn-amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio'n wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser dros ddwywaith yn ystod y cyfnod, gan gyrraedd 109 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau gradd gyntaf ran-amser 4 y cant i 100 a chynyddodd nifer y rheiny a ddechreuodd ar astudiaeth israddedig eraill rhan-amser 8 y cant i 350 erbyn 2005/06. Roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill.

Roedd y cynnydd mewn gweithgarwch rhan-amser ar gyrsiau Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio ar bob lefel yn fwy na'r cynnydd yn nifer y dechreuwyr rhan-amser. Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel ôl-raddedig dros ddwywaith ac ar lefel gradd gyntaf, gwelwyd cynnydd o 17 y cant. Cynyddodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar gyrsiau is-raddedig eraill 28 y cant. Cynyddodd y CALl cyfartalog at gyfer dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 44 y cant yn 2002/03 i 49 y cant yn 2005/06. Cynyddodd

o 47 y cant i 53 y cant ar lefel gradd gyntaf ac o 47 y cant i 56 y cant ar lefel is-raddedigion eraill.

Tabl 10a: Dechreuwyr ar gyrsiau Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	151	272	45	468
	2003/04	161	294	40	495
	2004/05	187	347	45	579
	2005/06	202	296	81	579
	Newid net	51	24	36	111
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	41	96	324	461
	2003/04	82	121	322	525
	2004/05	70	81	278	429
	2005/06	109	100	350	559
	Newid net	68	4	26	98
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	18	45	153	216
	2003/04	40	60	161	262
	2004/05	31	40	122	193
	2005/06	53	53	195	302
	Newid net	35	8	43	86













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 455 o fyfyrwyr gymhwyster mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio ar ôl astudio'n llawn amser, sef gostyngiad o 1 y cant o gymharu â 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio ar ôl astudio'n rhan-amser 20 y cant i 305 yn 2005/06.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 40 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio yn 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu 5 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 36 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio ddisgyn 1 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedion llawn amser mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio a enillodd gymhwyster ôl-raddedig bron i ddwywaith i 196 yn 2005/06, disgynnodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 34 y cant i 228 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill fwy na theirgwaith i gyrraedd 31 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf, er, wrth i nifer y cymwysedigion ôl-raddedig gynyddu a nifer y cymwysedigion gradd gyntaf ddisgyn, mae'r gyfran hon wedi disgyn o 75 y cant yn 2002/03 i ychydig dros 50 y cant yn 2005/06.

Rhan-amser

Fel gyda chymwysedigion llawn-amser, er i nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio gynyddu 20 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried bob lefel ar wahân. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig mewn Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio fwy na

ddwywaith gan gyrraedd 32 yn 2005/06. Cynyddodd y rheiny a enillodd raddau cyntaf 28 y cant i 91 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau is-raddedig eraill 6 y cant i 182 erbyn diwedd y cyfnod. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau is-raddedig eraill.

Tabl 10b: Cymwysedigion o gyrsiau Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	105	346	10	461
	2003/04	89	283	38	410
	2004/05	133	282	47	462
	2005/06	196	228	31	455
	Newid net	91	-119	21	-7
Cymwysedigion Rhan-Amser	2002/03	12	71	171	254
	2003/04	35	87	191	313
	2004/05	31	64	233	328
	2005/06	32	91	182	305
	Newid net	20	20	11	51













11. Astudiaethau Cymdeithasol

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 2,503 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Astudiaethau Cymdeithasol mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 2 y cant o gymharu â nifer y dechreuwyr llawn amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Astudiaethau Cymdeithasol 7 y cant i 2,377 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 49 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Astudiaethau Cymdeithasol yn 2005/06, sef cynnydd o un pwynt canran ers 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau rhan-amser gynyddu, gostyngodd lefel y gweithgarwch rhan-amser ymhlith dechreuwyr. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi gostwng 19 y cant i 712 yn 2005/06 a bod y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser wedi gostwng o 39 y cant yn 2002/03 i 30 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Astudiaethau Cymdeithasol llawn amser gynyddu 2 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried y lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 496 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef gostyngiad o 3 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 1,843 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef cynnydd o 7 y cant ers 2002/03. Gostyngodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau israddedig eraill llawn-amser o fwy na chwarter i 165 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn-amser mewn Astudiaethau Cymdeithasol ar gyrsiau gradd gyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda dechreuwyr llawn amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr rhan-amser yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Yn 2005/06, dechreuodd 213 o ddechreuwyr ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser, sef cynnydd o 7 y cant ers 2002/03 a chynyddodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau gradd gyntaf ran-amser o 13 y cant i 278. Cynyddodd nifer y rheiny a ddechreuodd ar astudiaethau israddedig eraill rhan-amser 6 y cant yn ystod y cyfnod i gyrraedd 1,886 erbyn 2005/06, er bod hyn 7 y cant yn llai na'r ffigur yn 2004/05, sef 2,036. Roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill.

Er i nifer y dechreuwyr rhan-amser ar bob lefel gynyddu, gwelwyd gostyngiad yn yr astudiaethau ar lefel israddedigion eraill. Roedd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel ôl-raddedig yn 2005/06, sef 91, yn debyg i'r nifer ar ddechrau'r cyfnod, er i'r nifer gynyddu yn 2004/05. Roedd nifer y CALl ar lefel gradd gyntaf yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod hefyd, sef 132 yn 2002/03 a 131 yn 2005/06. Amrywiodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar gyrsiau is-raddedig eraill yn ystod y cyfnod, gan gyrraedd 489 ar ddiwedd y cyfnod, a oedd 25 y cant yn is nag ar ddechrau'r cyfnod. Gostyngodd y CALl cyfartalog ar gyfer

dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 46 y cant i 43 y cant, o 54 y cant i 47 y cant ar lefel gradd gyntaf ac o 37 y cant i 26 y cant ar lefel israddedigion eraill yn ystod y cyfnod.

Tabl 11a: Dechreuwyr ar gyrsiau Astudiaethau Cymdeithasol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	512	1,723	229	2,463
	2003/04	591	1,656	265	2,512
	2004/05	549	1,590	238	2,377
	2005/06	496	1,843	165	2,503
	Newid net	-16	120	-64	40
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	199	247	1,783	2,229
	2003/04	210	301	1,768	2,279
	2004/05	275	267	2,036	2,577
	2005/06	213	278	1,886	2,377
	Newid net	14	32	103	149
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	92	132	655	880
	2003/04	91	171	593	855
	2004/05	114	159	634	907
	2005/06	91	131	489	712
	Newid net	-1	-1	-166	-168













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 1,783 o fyfyrwyr gymhwyster mewn Astudiaethau Cymdeithasol trwy astudio'n llawn-amser, sef cynnydd o 5 y cant o gymharu â'r nifer yn 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau mewn Astudiaethau Cymdeithasol ar ôl astudio'n rhan-amser bron i deirgwaith i 1,434 yn 2005/06.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 45 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd mewn Astudiaethau Cymdeithasol yn 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu 22 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 23 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Astudiaethau Cymdeithasol gynyddu 5 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Astudiaethau Cymdeithasol a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 4 y cant i 343 yn 2005/06, cynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 9 y cant i 1,220 a gostyngodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill 9 y cant i 220 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn Astudiaethau Cymdeithasol bron i deirgwaith yn ystod y cyfnod. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r cynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion israddedig eraill a gynyddodd bron i bedair gwaith yn ystod y cyfnod, gan gyrraedd 1,114 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 17 y cant i 229 a chynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf bron i ddwywaith gan gyrraedd 91 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau israddedig eraill.

Mae'n debyg y gellir esbonio'r cynnydd yn nifer y cymwysedigion israddedig eraill rhan-amser rhwng 2002/03 a 2004/05 trwy'r Brifysgol Agored yn rhoi cod Cyfunol i Astudiaethau Cymdeithasol yn 2002/03, fel yr esboniwyd yn flaenorol, pan gafodd y rhan fwyaf o ddarpariaeth y Brifysgol Agored ei chodio fel Cyfunol. Roedd nifer y cymwysterau is-raddedig eraill rhan-amser a gafwyd o statws cwsg yn uwch yn 2005/06 nag yn ystod y blynyddoedd blaenorol.

Tabl 11b: Cymwysedigion o gyrsiau Astudiaeth Cymdeithasol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	328	1,125	243	1,696
	2003/04	276	1,123	250	1,649
	2004/05	386	1,277	213	1,875
	2005/06	343	1,220	220	1,783
	Newid net	15	96	-23	87
Cymwysedigion Rhan-Amser	2002/03	196	37	272	505
	2003/04	165	94	701	960
	2004/05	290	99	959	1,347
	2005/06	229	91	1,114	1,434
	Newid net	33	55	842	930










Nifer o Cymwysedigion Astudiaethau Cymdeithasol Rhan-amser yn ôl lefel
Cymwysedigion Rhan-amser
1,500
1,000
500
0
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
Blwyddyn
Ôl-raddedigion
Gradd Cyntaf
Is-raddedigion eraill


Cyfran o Cymwysedigion Astudiaethau Cymdeithasol Rhan-amser yn ôl lefel
Blwyddyn
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Canran
Ôl-raddedigion
Gradd Cyntaf
Is-raddedigion eraill

12. Y Gyfraith

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 1,698 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser yn y Gyfraith mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 2 y cant o gymharu â nifer y dechreuwyr llawn-amser yn 2002/03, er bod hyn 5 y cant yn is na'r ffigur yn 2004/05.

Yn wreiddiol, gwelwyd cynnydd yn 2003/04, ond yn ystod y cyfnod o 2002/03 i 2005/06, disgynnodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser yn y Gyfraith 18 y cant yn gyffredinol, gan gyrraedd 343 ar ddiwedd y cyfnod. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 17 y cant o'r holl ddechreuwyr yn y Gyfraith yn 2005/06, sef gostyngiad o dri phwynt canran o gymharu â'r ffigur yn 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau rhan-amser yn y Gyfraith gynyddu i ddechrau yn 2003/04 gan ddisgyn wedi hynny, gostyngodd y gweithgarwch rhan-amser ymhlith dechreuwyr bob blwyddyn hyd 2005/06. Wrth ystyried CALloedd, gwelir bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi gostwng 27 y cant, o 172 yn 2002/03 i 125 yn 2005/06. Ar ddechrau'r cyfnod, roedd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser yn 41 y cant. Disgynnodd hyn i ychydig yn uwch na 30 y cant yn ystod y blynyddoedd cyfamserol, gan godi i 37 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser yn y Gyfraith gynyddu 2 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 543 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef cynnydd o 2 y cant ers 2002/03. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser 20 y cant rhwng 2002/03 a 2003/04, ond yna gostyngodd y nifer bob blwyddyn, er bod y ffigur o 1,106 yn 2005/06 yn dal i gynrychioli cynnydd o 6 y cant ers 2002/03. Disgynnodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser 42 y cant rhwng 2002/03 a 2003/04 ac yna parhaodd ar lefel debyg am weddill y cyfnod, gan gyrraedd 49 y cant yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod, dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd gyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda dechreuwyr llawn amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser yn y Gyfraith yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Amrywiodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser yn ystod y cyfnod, ond roedd y ffigur o 112 yn 2005/06 yn bron i hanner y nifer a ddechreuodd yn 2002/03. Cynyddodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau gradd gyntaf ran-amser deirgwaith rhwng 2002/03 a 2003/04, ond yna gostyngodd y nifer bob blwyddyn, er bod y ffigur o 84 yn 2005/06 yn cynrychioli cynnydd o 71 y cant o gymharu â'r ffigur yn 2002/03. Amrywiodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau israddedig eraill rhan-amser

yn ystod y cyfnod, ond roedd y ffigur o 147 yn 2005/06 4 y cant yn is nag ar ddechrau'r cyfnod. Yn 2002/03 a 2004/05, roedd ychydig dros hanner y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser yn y Gyfraith yn astudio ar lefel ôl-raddedig, ond yn 2003/04 a 2005/06 roedd y gyfran fwyaf yn astudio ar lefel israddedigion eraill.

Roedd y newidiadau i astudiaethau ar bob lefel yn wahanol i'r newidiadau i nifer y dechreuwyr rhan-amser. Disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALI ar lefel ôl-raddedig o ddau draean yn ystod y cyfnod. Ar lefel gradd gyntaf, gwelwyd cynnodd o bron i hanner ac ar lefel israddedigion eraill gwelwyd cynnydd o 3 y cant. Disgynnodd y CALI cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 45 y cant i 34 y cant ac o 62 y cant i 51 y cant ar lefel gradd gyntaf. Roedd y CALI cyfartalog ar lefel israddedigion eraill yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod (30 y cant yn 2005/06) ond yn hanner y gyfran hon yn ystod y blynyddoedd cyfamserol.

Tabl 12a: Dechreuwyr ar gyrsiau yn y Gyfraith yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	530	1,045	84	1,659
	2003/04	526	1,251	49	1,826
	2004/05	537	1,198	47	1,782
	2005/06	543	1,106	49	1,698
	Newid net	13	61	-35	39
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	218	49	153	420
	2003/04	142	147	187	476
	2004/05	214	94	73	381
	2005/06	112	84	147	343
	Newid net	-106	35	-6	-77
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	98	30	43	172
	2003/04	44	80	29	153
	2004/05	66	41	12	119
	2005/06	38	43	44	125
	Newid net	-60	13	1	-46













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 1,364 o fyfyrwyr gymhwyster yn y Gyfraith trwy astudio'n llawn amser, sef cynnydd o 13 y cant o gymharu â'r nifer yn 2002/03, ond gostyngiad o 10 y cant o gymharu â'r nifer yn 2004/05.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau yn y Gyfraith ar ôl astudio'n rhan-amser 18 y cant i 177 yn 2005/06, er bod y ffigur hwn yn cynrychioli gostyngiad o 22 y cant o'i gymharu â'r ffigur yn 2004/05.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 12 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn y Gyfraith yn 2005/06. Mae'r gyfradd hon wedi disgyn un pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 11 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion ar gyrsiau llawn amser yn y Gyfraith gynyddu 13 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedigion llawn amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 30 y cant rhwng 2002/03 a 2004/05, ond yna disgynnodd 18 y cant i 410 yn 2005/06, er bod y ffigur hwn yn dal i gynrychioli cynnydd o 6 y cant ers 2002/03. Gwelwyd cynnydd nifer yn nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf (20 y cant) rhwng 2003/04 a 2004/05. Roedd yn ffigur o 901 yn 2005/06 2 y cant yn is nag yn 2004/05 ond 23 y cant yn uwch na'r ffigur yn 2002/03. Disgynnodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill 41 y cant yn ystod y

cyfnod i gyrraedd 53 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser 18 y cant yn ystod y cyfnod, ond nid oedd hyn yn wir wrth ystyried bob lefel ar wahân. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 18 y cant i 145 yn 2005/06, cynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 66 y cant i 27 a disgynnodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill 55 y cant i 5 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau ôl-raddedig.

Tabl 12b: Cymwysedigion o gyrsiau yn y Gyfraith yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	385	734	90	1,209
	2003/04	453	771	37	1,260
	2004/05	501	921	88	1,510
	2005/06	410	901	53	1,364
	Newid net	25	167	-37	155
Cymwysedigion Rhan-Amser	2002/03	123	17	11	151
	2003/04	118	32	7	157
	2004/05	160	36	31	227
	2005/06	145	27	5	177
	Newid net	22	11	-6	27










Nifer o Cymwysedigion Y Gyfraith Rhan-amser yn ôl lefel
Cymwysedigion Rhan-amser
200
150
100
50
0
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
Blwyddyn
Ôl-raddedigion
Gradd Cyntaf
Is-raddedigion eraill


Cyfran o Cymwysedigion Y Gyfraith Rhan-amser yn ôl lefel
Blwyddyn
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Canran
Ôl-raddedigion
Gradd Cyntaf
Is-raddedigion eraill

13. Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 4,478 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 2 y cant o'i gymharu â nifer y dechreuwyr llawn-amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser 13 y cant i gyrraedd 4,369 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 49 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth yn 2005/06, sef cynnydd o ddau bwynt canran ers 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau rhan-amser mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth gynyddu, gostyngodd y gweithgarwch rhan-amser ymhlith dechreuwyr. Wrth ystyried CALloedd, gellir gweld bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi disgyn 25 y cant i 1,433 yn 2005/06 a bod y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser wedi disgyn 49 y cant yn 2002/03 i 33 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth gynyddu 2 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 1,732 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef cynnydd o 29 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 2,326 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef gostyngiad o 9 y cant ers 2002/03. Disgynnodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser 19 y cant i 420 yn 2005/06. Yn ystod y cyfnod dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser ar gyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Fel gyda dechreuwyr llawn-amser, roedd y cynnydd yn nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth yn wahanol iawn wrth ystyried y lefelau mynediad ar wahân. Yn 2005/06, dechreuodd 1,262 o ddechreuwyr ar astudiaethau ôl-raddedig rhan-amser, sef gostyngiad o lai nag un y cant ers 2002/03 a disgynnodd nifer y dechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau gradd cyntaf rhan-amser 25 y cant i 166. Cynyddodd nifer y rheiny a dechreuodd ar astudiaethau israddedig eraill rhan-amser 23 y cant i 2,941 erbyn 2005/06. Roedd mwyafrif y dechreuwyr rhan-amser yn astudio cyrsiau israddedig eraill.

Roedd y newidiadau i faint yr astudiaethau ar bob lefel yn wahanol i'r newidiadau i nifer y dechreuwyr rhan-amser ar bob lefel. Disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel ôl-raddedig o bumed, disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser ar lefel gradd cyntaf o draean a disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser ar lefel israddedigion eraill o chwarter. Disgynnodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 46 y cant i 37 y cant, o 53 y cant i 49 y cant ar lefel gradd cyntaf ac o 50 y cant i 30 y cant ar lefel is-raddedigion eraill yn ystod y cyfnod.

Mae mwyafrif y cynnydd mawr yn nifer y dechreuwyr rhan-amser is-raddedig eraill ar gyrsiau Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth yn 2005/06 o ganlyniad i'r cynnydd mawr yn nifer y dechreuwyr ar ysgoloriaethau ymchwil cysylltiol ym Mhrifysgol Morgannwg.

Tabl 13a: Dechreuwyr ar gyrsiau Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	1,340	2,554	517	4,411
	2003/04	1,238	2,949	531	4,718
	2004/05	1,638	2,368	440	4,446
	2005/06	1,732	2,326	420	4,478
	Newid net	392	-228	-97	67
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	1,269	220	2,386	3,875
	2003/04	1,317	337	2,323	3,977
	2004/05	1,131	200	2,447	3,779
	2005/06	1,262	166	2,941	4,369
	Newid net	-7	-54	555	494
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	585	118	1,197	1,899
	2003/04	523	168	1,031	1,721
	2004/05	414	90	900	1,405
	2005/06	470	80	883	1,433
	Newid net	-115	-37	-313	-466













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 3,515 o fyfyrwyr gymhwyster mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth o ganlyniad i astudio'n llawn amser, sef cynnydd o 15 y cant o'i gymharu â'r nifer yn 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth ar ôl astudio'n rhan-amser 54 y cant i 2,871 yn 2005/06.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 45 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth yn 2005/06. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu 7 pwynt canran yn ystod y cyfnod, gan gynrychioli 38 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd yn 2002/03.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth gynyddu 15 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Cynyddodd nifer y cymwysedigon llawn amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 53 y cant i 1,225 yn 2005/06, cynyddodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 5 y cant i 2,004 a disgynnodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill 14 y cant i 286 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaeth llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser ar gyrsiau Astudiaethau Busnes Gweinyddiaeth 54 y cant yn ystod y cyfnod. Roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â'r cynnydd yn nifer y cymwysedigion israddedig eraill a gynyddodd 86 y cant yn ystod y cyfnod, gan gyrraedd 1,678 yn 2005/06. Cynyddodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig 29 y cant i 1,077 a disgynnodd nifer y rheiny a enillodd

raddau cyntaf 3 y cant i 116. Ym mhob blwyddyn heblaw 2002/03, roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau israddedig eraill; yn 2002/03, israddedigion eraill oedd â'r gyfran fwyaf ond roedd yn cyfrif am ychydig yn llai na hanner yr holl gymwysedigion rhan-amser.

Esbonnir y cynnydd yn nifer y cymwysedigion israddedig eraill rhan-amser gan y nifer uwch nag arfer o gymwysterau a gafwyd o statws cwsg yn 2004/05 a chynnydd mawr yn nifer y cymwysedigion o ysgoloriaeth ymchwil cysylltiol Prifysgol Morgannwg yn 2005/06.

Tabl 13b: Cymwysedigion o gyrsiau mewn Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	803	1,915	332	3,050
	2003/04	775	1,994	322	3,091
	2004/05	1,069	1,891	455	3,415
	2005/06	1,225	2,004	286	3,515
	Newid net	422	89	-47	465
Cymwysedigion Rhan-Amser	2002/03	835	120	904	1,859
	2003/04	709	166	879	1,754
	2004/05	906	99	1,201	2,205
	2005/06	1,077	116	1,678	2,871
	Newid net	242	-3	774	1,012










Nifer o Cymwysedigion Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth Rhan-amser yn ôl lefel
Cymwysedigion Rhan-amser
2,000
1,500
1,000
500
0
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
Blwyddyn
Ôl-raddedigion
Gradd Cyntaf
Is-raddedigion eraill


Cyfran o Cymwysedigion Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth Rhan-amser yn ôl lefel
Blwyddyn
2002/03
2003/04
2004/05
2005/06
0%
20%
40%
60%
80%
100%
Canran
Ôl-raddedigion
Gradd Cyntaf
Is-raddedigion eraill

14. Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 1,010 o fyfyrwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth mewn SAUau yng Nghymru, sef cynnydd o 22 y cant o'i gymharu â nifer y dechreuwyr llawn-amser yn 2002/03.

Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser 18 y cant i 283 yn 2005/06. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am 22 y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth yn 2005/06 a oedd yn debyg i'r gyfran yn 2002/03.

Er i nifer y myfyrwyr a ddechreuodd ar gyrsiau rhan-amser gynyddu, gostyngodd y gweithgarwch rhan-amser ymhlith dechreuwyr. Wrth ystyried CALloedd, gellir gweld bod nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl wedi disgyn 35 y cant i 44 yn 2005/06 a bod y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser wedi disgyn o 28 y cant yn 2002/03 i 16 y cant yn 2005/06.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau llawn amser mewn Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth gynyddu 22 y cant yn ystod y cyfnod, roedd hyn o ganlyniad i gynnydd o 55 y cant yn nifer y dechreuwyr ôl-raddedig rhwng 2004/05 a 2005/06 yn bennaf. Yn 2005/06, dechreuodd 426 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef cynnydd o 31 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 576 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef cynnydd o 16 y cant ers 2002/03. Dechreuodd nifer fach iawn o ddechreuwyr ar gyrsiau israddedig eraill llawn-amser, sef llai na 10 bob blwyddyn. Yn ystod y cyfnod, dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn-amser ar gyrsiau gradd cyntaf.

Rhan-amser

Roedd i newidiadau i faint yr astudiaethau'n debyg i'r newidiadau i nifer y dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig a gradd cyntaf. Disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel ôl-raddedig 89 y cant, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar lefel gradd cyntaf yn fawr a disgynnodd nifer y dechreuwyr rhan-amser CALl ar lefel israddedigion

eraill 69 y cant. Disgynnodd y CALl cyfartalog ar gyfer dechreuwyr rhan-amser ar lefel ôl-raddedig o 28 y cant i 21 y cant ac ar lefel israddedigion eraill o 28 y cant i 11 y cant. Cynyddodd y CALl cyfartalog ar lefel gradd cyntaf o 39 y cant i 42 y cant.

Roedd nifer uchel y dechreuwyr ôl-raddedig rhan-amser yn 2002/03 o ganlyniad i'r Brifysgol Agored yn codio'r rhan fwyaf o'i darpariaeth fel Cyfunol yn ystod y flwyddyn hon. Roedd nifer isel y dechreuwyr gradd cyntaf rhan-amser a rhywfaint o'r nifer uchel o ddechreuwyr israddedig eraill yn 2002/03 o ganlyniad i'r Brifysgol Agored yn codio ei darpariaeth israddedig gan anelu am gredydau sefydliadol. Rheswm arall am nifer uchel y dechreuwyr israddedig eraill rhan-amser yn 2002/03 oedd bod y rhan fwyaf o ddarpariaeth y Brifysgol Agored wedi'i chodio fel Cyfunol yn ystod y flwyddyn hon, ond fel pynciau penodol mewn blynyddoedd diweddarach.

Tabl 19a: Dechreuwyr ar gyrsiau Cyfunol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	0	123	0	123
	2003/04	0	161	0	161
	2004/05	*	101	*	104
	2005/06	*	+	0	94
	Newid net	*	+	0	-29
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	211	10	4,024	4,245
	2003/04	27	323	2,775	3,125
	2004/05	37	327	3,242	3,606
	2005/06	31	377	3,103	3,511
	Newid net	-180	367	-921	-734
CALl Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	59	4	1,109	1,172
	2003/04	5	134	539	678
	2004/05	8	134	555	697
	2005/06	7	159	348	513
	Newid net	-52	155	-761	-659













Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 67 o fyfyrwyr gymhwyster Cyfunol trwy astudio'n llawn amser, sef gostyngiad o 16 y cant o'i gymharu â'r nifer yn 2002/03.

Yn ystod y cyfnod, disgynnodd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau Cyfunol ar ôl astudio'n rhan-amser 33 y cant i gyrraedd 1,699 yn 2005/06.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am 96 y cant o'r holl gymwysterau Cyfunol a gafwyd yn 2005/06. Roedd y gyfran hon un pwynt canran yn is nag yn 2002/03, pan oedd 97 y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd o ganlyniad i astudiaethau rhan-amser.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser ar gyrsiau Cyfunol ostwng 16 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Ychydig iawn o fyfyrwyr ôl-raddedig a enillodd gymwysterau llawn amser yn ystod y cyfnod, os o gwbl, ac ychydig iawn a enillodd gymwysterau israddedig eraill ar ôl astudio'n llawn amser, sef llai nag 20 y flwyddyn. Disgynnodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 30 y cant i gyrraedd 47 yn 2005/06. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau llawn amser yn raddau cyntaf.

Rhan-amser

Gostyngodd nifer y cymwysedigion rhan-amser mewn cyrsiau Cyfunol 33 y cant yn ystod y cyfnod, ond nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Disgynnodd nifer y cymwysedigion rhan-amser a enillodd gymwysterau israddedig eraill bron i 100 y cant i lai na phump yn 2005/06 a disgynnodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 42 y cant. Disgynnodd nifer y rheiny a enillodd gymwysterau israddedig eraill 24 y cant. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau rhan-amser yn gymwysterau israddedig eraill.

Gellir esbonio nifer uchel y cymwysedigion rhan-amser ar bob lefel yn 2002/03 gan i'r Brifysgol Agored godio'r rhan fwyaf o'i darpariaeth fel Cyfunol yn ystod y flwyddyn hon.

Mae'r cynnydd yn nifer y cymwysedigion eraill rhan-amser yn 2004/05 o ganlyniad i'r cynnydd yn y cymwysedigion hyn ym Mhrifysgol Abertawe, lle mae mwyafrif y cymwysedigion hyn yn astudio bob blwyddyn.

Tabl 19b: Cymwysedigion o gyrsiau Cyfunol yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	0	67	13	80
	2003/04	0	+	*	62
	2004/05	0	61	6	67
	2005/06	*	47	+	67
	Newid net	*	-20	+	-13
Cymwysedigion Rhan-Amser	2002/03	220	332	1,973	2,525
	2003/04	46	163	1,427	1,636
	2004/05	0	189	1,860	2,049
	2005/06	*	+	1,503	1,699
	Newid net	+	+	-470	-826













20. Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn arwain i Statws Athro Cymwysedig

Dechreuwyr

Modd

Yn 2005/06, dechreuodd 2,322 o fyfyrwyr ar gyrsiau HCA (SAC) llawn amser mewn SAUau yng Nghymru, sef gostyngiad o 3 y cant ers 2002/03.

Ychydig iawn o ddechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau HCA (SAC) rhan-amser, sef 8 neu lai bob blwyddyn. Roedd dechreuwyr rhan-amser yn cyfrif am lai nag un y cant o'r holl ddechreuwyr ar gyrsiau HCA (SAC) bob blwyddyn.

Gan mai nifer fach o ddechreuwyr a ddechreuodd ar gyrsiau HCA (SAC) yn ystod y cyfnod, roedd y CALl ar gyfer y dechreuwyr hyn yn isel hefyd.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau HCA (SAC) llawn amser ostwng 3 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir ar gyfer lefelau mynediad unigol. Yn 2005/06, dechreuodd 1,546 o ddechreuwyr ar gyrsiau ôl-raddedig llawn amser, sef gostyngiad o 1 y cant ers 2002/03 a dechreuodd 776 o ddechreuwyr ar gyrsiau gradd cyntaf llawn amser, sef gostyngiad o 6 y cant ers 2002/03. Ni ddechreuodd unrhyw ddechreuwyr ar gyrsiau israddedig eraill llawn amser yn ystod y cyfnod. Dechreuodd mwyafrif y dechreuwyr llawn amser yn ystod y cyfnod hwn ar gyrsiau ôl-raddedig.

Rhan-amser

Ychydig iawn o ddechreuwyr rhan-amser a ddechreuodd bob blwyddyn ac roedd bob un ohonynt yn astudio tuag at radd cyntaf.

Tabl 20a: Dechreuwyr ar gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (SAC) yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Dechreuwyr Llawn-amser	2002/03	1,561	824	0	2,385
	2003/04	1,555	792	0	2,347
	2004/05	1,570	841	0	2,411
	2005/06	1,546	776	0	2,322
	Newid net	-15	-48	0	-63
Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	0	*	0	*
	2003/04	0	8	0	8
	2004/05	0	*	0	*
	2005/06	0	*	0	*
	Newid net	0	2	0	2
CALI Dechreuwyr Rhan-amser	2002/03	0	2	0	2
	2003/04	0	5	0	5
	2004/05	0	2	0	2
	2005/06	0	1	0	1
	Newid net	0	-1	0	-1









Cymwysedigion

Modd

Yn 2005/06, enillodd 2,066 o fyfyrwyr gymhwyster HCA (SAC) trwy astudio'n llawn amser, sef gostyngiad o 3 y cant ers 2002/03.

Fel gyda dechreuwyr, roedd nifer y cymwysedigion HCA (SAC) rhan-amser yn isel iawn, sef llai na 15 bob blwyddyn.

Roedd nifer y myfyrwyr a enillodd gymhwyster ar ôl astudio'n rhan-amser yn cyfrif am lai nag un y cant o'r holl gymwysterau a gafwyd mewn HCA (SAC) bob blwyddyn.

Lefel

Llawn amser

Er i nifer y cymwysedigion llawn amser ddisgyn 3 y cant yn ystod y cyfnod, nid oedd hyn yn wir wrth ystyried lefel y cymhwyster a gafwyd. Roedd nifer y cymwysedigion llawn amser a enillodd gymwysterau ôl-raddedig yn debyg ar ddechrau a diwedd y cyfnod, sef 1,416 yn 2005/06. Disgynnodd nifer y rheiny a enillodd raddau cyntaf 9 y cant i 644 a nifer fach iawn o gymwysedigion a enillodd gymwysterau israddedig eraill bob blwyddyn. Roedd mwyafrif y cymwysterau a gafwyd yn dilyn astudiaethau llawn amser yn gymwysterau ôl-raddedig.

Rhan-amser

Ychydig iawn o gymwysedigion a enillodd gymwysterau ar ôl astudio'n rhan-amser ar bob lefel bob blwyddyn.

Tabl 20b: Cymwysedigion o gyrsiau Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (SAC) yn ôl modd a lefel

		Ôl-raddedigion	Gradd Cyntaf	Is-raddedigion Eraill	Cyfanswm
Cymwysedigion Llawn-Amser	2002/03	1,419	704	10	2,133
	2003/04	1,424	699	18	2,141
	2004/05	1,464	638	27	2,129
	2005/06	1,416	644	6	2,066
	Newid net	-3	-60	-4	-67
Cymwysedigion Rhan-Amser	2002/03	0	6	0	6
	2003/04	0	+	*	6
	2004/05	0	+	*	15
	2005/06	*	*	0	5
	Newid net	*	*	0	-1









21. Cymharu Dechreuwyr a Chymwysedigion yn y Gwyddorau Ffisegol, Gwyddorau Mathemategol, Peirianneg a Thechnoleg ac Ieithoedd mewn SAUau yng Nghymru a Lloegr

Gwneir y cymariaethau yn ystod cyfnod o bedair blynedd o 2002/03 i 2005/06, heblaw'r Gwyddorau Mathemategol sydd rhwng 2003/04 a 2005/06. Mae hyn o ganlyniad i newid yn yr arfer codio yn 2003/04. Mae'n debygol bod y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ran-amser yn y Gwyddorau Mathemategol yng Nghymru wedi'i chodio yn y maes pwnc Cyfunol yn 2002/03 (gweler y bennod am y Gwyddorau Mathemategol am fwy o wybodaeth).

Yn y bennod hon, mae Ieithoedd yn eithrio Ieithyddiaeth, y Clasuron a phynciau cysylltiedig. Mae'r pynciau hyn wedi'u cynnwys mewn penodau diweddarach am Ieithoedd.

Dechreuwyr

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau yn y Gwyddorau Ffisegol mewn SAUau yng Nghymru 8 y cant i gyrraedd 2,039 yn 2005/06, gan gynrychioli 3.2 y cant o'r dechreuwyr ym mhob pwnc; sef cyfran debyg i'r un yn 2002/03. Mewn SAUau yn Lloegr, cynyddodd y nifer 21 y cant i gyrraedd 25,380, gan gynrychioli 2.9 y cant o'r dechreuwyr ym mhob pwnc, sef cynnydd o 0.3 pwynt canran ers 2002/03. Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y dechreuwyr yn y Gwyddorau Ffisegol yn y ddwy wlad yn 2005/06 o gymharu â 2004/05. Yn arbennig, gwelodd SAUau yng Nghymru gynnydd mawr yn nifer y dechreuwyr rhan-amser ar gyrsiau Gwyddoniaeth Fforensig ac Archaeolegol yn 2005/06 (gweler y bennod Gwyddorai Ffisegol).

Rhwng 2003/04 a 2005/06, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau yn y Gwyddorau Mathemategol mewn SAUau yng Nghymru 11 y cant i 389, gan gynrychioli 0.6 y cant o'r dechreuwyr ym mhob pwnc, sef cyfran debyg i'r un yn 2003/04. Mewn SAUau yn Lloegr, cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Gwyddorau Mathemategol 13 y cant i 10,452, gan gynrychioli 1.2 y cant o'r dechreuwyr ym mhob pwnc, a oedd hefyd yn gyfran debyg i'r un yn 2003/04. Gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y dechreuwyr yn y Gwyddorau Mathemategol yn y ddwy wlad yn 2005/06 o gymharu â 2004/05.

Amrywiodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Peirianneg a Thechnoleg mewn SAUau yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod. Yng Nghymru, cynyddodd nifer y dechreuwyr 3 y cant yn ystod y cyfnod i gyrraedd 3,871 yn 2005/06, gan gynrychioli 6.2 y cant o'r dechreuwyr ym mhob pwnc, sef gostyngiad o 0.2 bwynt canran ers 2002/03. Yn Lloegr, cynyddodd nifer y dechreuwyr 4 y cant i gyrraedd 43,272 erbyn 2005/06, gan gynrychioli 5.0 y cant o'r dechreuwyr ym mhob pwnc yn 2005/06, sef gostyngiad o 0.2 bwynt canran ers 2002/03.

Cynyddodd nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Ieithoedd mewn SAUau yng Nghymru 44 y cant i gyrraedd 2,081 erbyn 2005/06. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i'r cynnydd mawr yn nifer y dechreuwyr ar gyrsiau rhan-amser mewn Eraill mewn Ieithoedd a Llenyddiaeth Ewropeaidd a phynciau cysylltiedig (gweler y bennod Ieithoedd). Roedd dechreuwyr ar gyrsiau Ieithoedd yn cynrychioli 3.3 y cant o'r dechreuwyr ym mhob pwnc mewn SAUau yng Nghymru yn 2005/06, sef cynnydd o 0.9 pwynt canran ers 2002/03. Yn Lloegr, er i nifer y dechreuwyr ar gyrsiau Ieithoedd amrywio yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y

dechreuwyr 7 y cant i gyrraedd 26,012 erbyn 2005/06. Roedd hyn yn cynrychioli 3.0 y cant o'r dechreuwyr ym mhob pwnc yn 2005/06, sef cyfran debyg i'r un yn 2002/03.

Tabl 21a: Dechreuwyr ar gyrsiau yn y Gwyddorau Ffisegol, Gwyddorai Mathemategol, Peirianneg a Thechnoleg ac Ieithoedd mewn SAUau yng Nghymru a Lloegr

	Cymru				Lloegr			
	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Gwyddorau Ffisegol	1,884	1,929	1,697	2,039	20,899	21,762	22,651	25,380
Gwyddorau Mathemategol	239	350	340	389	8,547	9,273	9,110	10,452
Peirianneg a Thechnoleg	3,772	4,054	3,862	3,871	41,657	41,859	43,829	43,272
Ieithoedd*	1,446	1,493	1,509	2,081	24,302	23,896	23,476	26,012
All Subjects	59,361	60,820	61,339	62,783	805,308	831,701	827,489	868,270

* Yn cynnwys ieithoedd a llenyddiaeth Ewropeaidd a phynciau cysylltiedig ac ieithoedd a llenyddiaeth Dwyreiniol, Asiaidd, Affricanaidd, Americanaidd ac Awstralasiaidd a phynciau cysylltiedig ond heb gynnwys ieithyddiaeth, y clasuron a phynciau cysylltiedig.





* Gwahaniaeth canran rhwng 2003/04 a 2005/06





Cymwysedigion

Cynyddodd nifer y cymwysedigion ar gyrsiau yn y Gwyddorau Ffisegol mewn SAUau yng Nghymru bob blwyddyn, gan gyrraedd 1,466 erbyn diwedd y cyfnod. Roedd hyn 36 y cant yn uwch nag ar ddechrau'r cyfnod ac yn cynrychioli 3.5 y cant o'r cymwysedigion ym mhob pwnc yn 2005/06, sef cynnydd o 0.2 bwynt canran ers 2002/03. Mewn SAUau yn Lloegr, cynyddodd nifer y cymwysedigion ar gyrsiau yn y Gwyddorau Ffisegol bob blwyddyn hefyd, gan gyrraedd 18,175 yn 2005/06, sef cynnydd o 9 y cant ers 2002/03. Roedd hyn yn cynrychioli 3.1 y cant o'r cymwysedigion ym mhob pwnc, sef cyfran debyg i'r un yn 2002/03.

Yng Nghymru, cynyddodd nifer y cymwysedigion o gyrsiau yn y Gwyddorau Mathemategol 12 y cant rhwng 2003/04 a 2004/05 a disgynnodd 2 y cant rhwng 2004/05 a 2005/06, gan gyrraedd 250 ar ddiwedd y cyfnod a oedd 10 y cant yn uwch na'r ffigur yn 2003/04. Roedd cymwysedigion o gyrsiau yn y Gwyddorau Mathemategol yn cynrychioli 0.6 y cant o'r cymwysedigion ym mhob pwnc yn 2005/06, sef cyfran debyg i'r un yn 2003/04. Yn Lloegr, cynyddodd nifer y cymwysedigion yn y Gwyddorau Mathemategol bob blwyddyn, gan gyrraedd 7,015 erbyn diwedd y cyfnod, a oedd 8 y cant yn uwch nag yn 2003/04 ac yn cynrychioli 1.2 y cant o'r cymwysedigion ym mhob pwnc. Roedd y gyfran hon hefyd yn debyg i'r un yn 2003/04.

Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y cymwysedigion mewn Peirianneg a Thechnoleg mewn SAUau yng Nghymru 28 y cant i 2,734. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd o 35 y cant rhwng 2003/04 a 2004/05. Roedd cymwysedigion o gyrsiau Peirianneg a Thechnoleg yn cynrychioli 6.6 y cant o'r cymwysedigion ym mhob pwnc mewn SAUau yng Nghymru yn 2005/06. Roedd y gyfran hon yn debyg i'r un yn 2002/03. Mewn SAUau yn Lloegr, cynyddodd nifer y cymwysedigion 14 y cant i gyrraedd 32,237 yn 2005/06, gan gynrychioli 5.5 y cant o'r cymwysedigion ym mhob pwnc, sef cyfran debyg i'r un yn 2002/03.

Amrywiodd nifer y cymwysedigion mewn leithoedd yng Nghymru a Lloegr yn ystod y cyfnod. Erbyn diwedd y cyfnod, roedd nifer y cymwysedigion mewn cyrsiau leithoedd mewn SAUau yng Nghymru wedi disgyn 17 y cant i 352, gan gynrychioli 0.8 y cant o'r cymwysedigion ym mhob pwnc. Roedd hyn 0.4 pwynt canran yn is nag yn 2002/03. Mewn SAUau yn Lloegr cynyddodd nifer y cymwysedigion mewn cyrsiau leithoedd 6 y cant i 13,271, gan gynrychioli 2.3 y cant o'r cymwysedigion ym mhob pwnc, sef cyfran debyg i'r un yn 2002/03.

Tabl 21b: Cymwysedigion o gyrsiau Gwyddorau Ffisegol, Gwyddorau Mathemategol, Peirianneg a Thechnoleg ac Ieithoedd mewn SAUau yng Nghymru a Lloegr

	Cymru				Lloegr			
	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06	2002/03	2003/04	2004/05	2005/06
Gwyddorau Ffisegol	1,079	1,172	1,376	1,466	16,631	16,823	17,935	18,175
Gwyddorau Mathemategol	223	228	254	250	5,731	6,510	6,876	7,015
Peirianneg a Thechnoleg	2,142	2,095	2,829	2,734	28,244	30,220	32,005	32,237
Ieithoedd*	422	405	415	352	12,557	12,411	11,765	13,271
All Subjects	32,821	33,227	40,233	41,707	514,444	551,007	574,751	588,398

* Yn cynnwys ieithoedd a llenyddiaeth Ewropeaidd a phynciau cysylltiedig ac ieithoedd a llenyddiaeth Dwyreiniol, Asiaidd, Affricanaidd, Americanaidd ac Awstralasiaidd a phynciau cysylltiedig ond heb gynnwys ieithyddiaeth, y clasuron a phynciau cysylltiedig.





* Gwahaniaeth canran rhwng 2003/04 a 2005/06





Atodiad A

Diffiniadau AYAU (Hawlfraint AYAU)

1 Ymdriniaeth

Myfyrwyr addysg uwch (AU) yw'r myfyrwyr hynny ar raglenni astudio y mae lefel yr hyfforddiant yn uwch na lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol h.y. cyrsiau sy'n arwain at Safon Uwch y Dystysgrif Addysg Gyffredinol (Lefel A TGA) neu Safon Uwch y Dystysgrif Addysg Galwedigaethol (Lefel A TAG).

Mae cofnod myfyrwyr AYAU yn cynnwys gwybodaeth am gofrestriadau unigol a chan y gall myfyrwyr gofrestru ar fwy nag un rhaglen astudio, mae hyn ychydig yn uwch na nifer y myfyrwyr.

Defnyddir tair poblogaeth gofrestru benodol yn yr astudiaeth hon:

(i) mae **poblogaeth gofrestru safonol AYAU** yn sicrhau bod gweithgarwch myfyrwyr yn cael ei gyfrifo mewn modd tebyg pryd bynnag y mae'n digwydd. Mae'r boblogaeth yn rhannu profiad y myfyrwyr yn 'flynyddoedd y rhaglen astudio'; mae'r flwyddyn gyntaf yn dechrau ar ddyddiad dechrau'r rhaglen a'r ail flwyddyn ac unrhyw flynyddoedd dilynol yn dechrau ar ben-blwydd y dyddiad hwnnw, neu'n agos ato. Caiff cofrestriadau eu cyfrif unwaith ar gyfer pob un o 'flynyddoedd y rhaglen astudio'. Nid yw myfyrwyr sy'n gadael o fewn pythefnos o'r dyddiad dechrau neu ben-blwydd y dyddiad dechrau ac sydd ar gwrs sy'n para mwy na phythefnos, yn cael eu cynnwys yn y boblogaeth gofrestru safonol. Nid yw myfyrwyr cwsg, myfyrwyr ymweld a chyfnewid o wledydd tramor na myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i'r DU trwy gydol eu rhaglenni astudio wedi'u cynnwys yn y boblogaeth hon chwaith.

(ii) mae **poblogaeth AU sesiynol AYAU** yn deillio o Gofnod Myfyrwyr AYAU. Mae'n cynnwys yr holl gofrestriadau addysg uwch sy'n weithredol ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd e.e. rhwng 1 Awst 2005 a 31 Gorffennaf 2006 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2005/06, ac eithrio:

   i. myfyrwyr cwsg (y rheiny sydd wedi rhoi gorau i astudio ond heb ddadgofrestru'n ffurfiol)
   ii. myfyrwyr ymweliadol a chyfnewid
   iii. myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i'r DU trwy gydol eu rhaglenni astudio.

   Caiff myfyrwyr ymweliadol a chyfnewid eu heithrio o'r boblogaeth sesiynol er mwyn osgoi elfen o ailgyfrif trwy gynnwys myfyrwyr sy'n mynd allan ac yn dod i mewn.

(iii) mae **poblogaeth cymwysterau a enillwyd AYAU** yn cyfrif nifer y cofrestriadau sy'n gysylltiedig â dyfarnu cymhwyster AU (ac eithrio credydau sefydliadol AU) yn ystod blwyddyn academaidd e.e. o 1 Awst 2005 hyd 31 Gorffennaf 2006 ar gyfer y flwyddyn academaidd 2005/06. Mae'r boblogaeth hon yn cynnwys yr holl gymwysterau a enillwyd yn ystod blwyddyn academaidd, y dychwelwyd data amdanynt i AYAU erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn academaidd ddilynol e.e. erbyn 31 Hydref 2006 ar gyfer 2005/06. Nid yw'r boblogaeth hon yn cynnwys cymwysterau a ddyfernir i fyfyrwyr ymweld a chyfnewid. Mae'n cynnwys dyfarniadau o statws cwsg.

2 Cyfatebiaeth llawn amser

Mae'r data am gyfatebiaeth llawn amser (CALI) myfyrwyr yn cynrychioli asesiad yr athrofa o gyfatebiaeth llawn amser y myfyriwr yn ystod y flwyddyn adrodd e.e. o 1 Awst 2005 hyd 31 Gorffennaf 2006 ar gyfer 2005/06. Mae data CALI yn seiliedig ar boblogaeth sesiynol AYAU.

3 Modd astudio

(Yn berthnasol i'r holl boblogaethau ac eithrio'r boblogaeth cymwysterau a enillwyd)

Myfyrwyr llawn amser yw'r rheiny y mae gofyn iddynt, fel rheol, fynychu athrofa am gyfnod sy'n hafal i o leiaf 24 wythnos yn ystod blwyddyn y rhaglen astudio, ar gyrsiau rhyngosod a'r rheiny sy'n cymryd blwyddyn allan o'u sefydliad i ymgymryd â gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'u hastudiaethau. Yn ystod y cyfnod hwnnw, disgwylir i fyfyrwyr wneud cyfnodau o astudio, hyfforddi neu brofiad gwaith sy'n gyfwerth ag o leiaf 21 awr yr wythnos ar gyfartaledd.

Dechreuwyr Rhan-amser yw'r rheiny sy'n astudio'n rhan-amser, ar ryddhad am gyfnod, gyda'r nos yn unig, llawn amser am lai na 24 wythnos o'r flwyddyn academaidd neu'r rheiny sy'n defnyddio dulliau astudio eraill, hynny yw myfyrwyr sy'n ysgrifennu traethodau neu sydd ar flwyddyn sabothol.

(Yn berthnasol i'r boblogaeth cymhwyster a enillwyd)

Myfyrwyr llawn amser yw'r rheiny y cofnodwyd eu hastudiaethau fel rhai llawn amser (fel y disgrifir uchod), gan gynnwys myfyrwyr rhyngosod. Cynhwysir dyfarniadau o statws cwsg a'r rheiny sy'n ysgrifennu traethodau hefyd os oedd modd astudio'r myfyriwr yn llawn amser yn flaenorol.

Dechreuwyr Rhan-amser yw'r rheiny y cofnodwyd eu hastudiaethau fel rhai rhan-amser neu a astudiodd ar gyrsiau a barodd llai na 24 wythnos, rhyddhad am gyfnod neu astudio gyda'r nos. Cynhwysir dyfarniadau o statws cwsg a'r rheiny sy'n ysgrifennu traethodau hefyd os oedd modd astudio'r myfyriwr yn rhan-amser yn flaenorol.

4 Lefel astudio

Rhaglenni astudio **ôl-raddedig** yw'r rheiny sy'n arwain at raddau uwch, diplomâu a thystysgrifau (gan gynnwys Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) a chymwysterau proffesiynol) ac fel arfer mae'n ofynnol i ddechreuwyr feddu ar gymhwyster ar lefel gradd (h.y. eisoes yn meddu ar gymhwyster lefel 6 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol).

Mae rhaglenni astudio **israddedig** yn raddau cyntaf a allai gynnwys cymhwyster i gofrestru i ymarfer gyda chorff rheoleiddio statudol Iechyd neu Ofal Cymdeithasol neu Filfeddygol, graddau cyntaf sy'n rhoi statws athro cymwysedig (SAC)/cofrestriad â'r Cyngor Addysg Cyffredinol (CAC), graddau cyntaf uwch, graddau a geir ar yr un pryd â

diplomâu a graddau cyntaf rhyngosodol, Graddau Sylfaen, diplomâu AU gyda chymhwyster i gofrestru i ymarfer gyda chorff rheoleiddio Iechyd neu Ofal Cymdeithasol, Diploma Cenedlaethol Uwch (HND), Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC), Diploma Addysg Uwch (DipHE), Tystysgrif Addysg Uwch (CertHE), cyrsiau sylfaen ar lefel AU, NVQ/SVQ lefel 4 a 5, diplomâu a thystysgrifau ôl gradd ar lefel israddedig, cymwysterau proffesiynol ar lefel israddedig a diplomâu a thystysgrifau israddedig eraill gan gynnwys cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol ôl-gofrestru. Nid oes angen cymhwyster AU fel rheol ar fyfyrwyr sy'n ymgymryd â'r rhaglenni astudio hyn.

Mae **graddau cyntaf** yn cynnwys graddau cyntaf gyda neu heb gymhwyster i gofrestru i ymarfer gyda chorff rheoleiddio statudol Iechyd neu Ofal Cymdeithasol neu Filfeddygol, graddau cyntaf gyda statws athro cymwysedig (SAC)/cofrestriad gyda'r Cyngor Addysgu Cyffredinol, graddau cyntaf uwch, graddau cyntaf a geir ar yr un pryd â diploma a graddau cyntaf rhyngosodol.

Mae **israddedig arall** yn cynnwys cymwysterau o dan lefel gradd megis Graddau Sylfaen, diplomâu AU gyda chymhwyster i gofrestru i ymarfer gyda chorff rheoleiddio Iechyd neu Ofal Cymdeithasol, Diploma Cenedlaethol Uwch (HND), Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC), Diploma Addysg Uwch (DipHE), Tystysgrif Addysg Uwch (CertHE), cyrsiau sylfaen ar y lefel AU, lefelau 4 a 5 NVQ/SVQ, diplomâu a thystysgrifau ar ôl gradd ar y lefel israddedig, cymwysterau proffesiynol ar lefel israddedig, diplomâu a thystysgrifau israddedig eraill gan gynnwys cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol ôl-gofrestru, cymwysterau AU ffurfiol eraill sy'n is na safon gradd, credyd israddedig sefydliadol, a dim cymwysterau israddedig ffurfiol.

5 Oedran

Mae oedran y myfyrwyr fel yr oedd ar 31 Awst yn y flwyddyn academaidd honno e.e. ar 31 Awst 2005 ar gyfer 2005/06.

6 Ethnigrwydd

Mae'n ofynnol i fyfyrwyr sy'n byw yn y DU roi gwybod am eu tras ethnig. At ddibenion y maes hwn, mae hyn yn golygu'r rheiny sy'n byw yng Nghymru, Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw. At ddibenion yr adroddiad hwn, rhannwyd y data'n dri chategori: Gwyn, grwpiau Du ac Ethnig Lleiafrifol (BME) ac Anhysbys. Nid yw'n orfodol i roi gwybod am ethnigrwydd myfyrwyr o drigfannau eraill ac felly mae'r ffigurau yn Atodiad C yn deillio o is-set y mae'n bosibl nad yw'n cynrychioli cyfanswm o boblogaeth myfyrwyr.

7 Anabledd

Nodir anableddau gan fyfyrwyr ar sail eu hunan asesiadau eu hunain. I fyfyrwyr parhaus, os nad yw'r wybodaeth yn hysbys, gall sefydliadau gofnodi na ofynnwyd am anabledd y myfyriwr. O ganlyniad, nid yw rhai sefydliadau wedi dychwelyd data anabledd ar gyfer rhai o'u myfyrwyr. Yn ogystal, nid oes rhaid i fyfyrwyr roi gwybod am anableddau. Mae'r ffigurau yn Atodiad C yn deillio o is-set y mae'n bosibl nad yw'n cynrychioli cyfanswm y boblogaeth myfyrwyr.

8 Pynciau astudio a chodau JACS

Manyleb JACS

Mae holl godau pwnc JACS yn cynnwys llythyren a thri digid, y mae'r cyntaf yn rhif heblaw sero (ac eithrio'r codau generig a ddisgrifir isod). Mae'r llythyren gyntaf yn nodi grŵp y pwnc, er enghraifft F ar gyfer Gwyddorau Ffisegol. Mae'r llythyren gyntaf a'r digid sy'n dilyn yn nodi'r prif bwnc, er enghraifft F5 Seryddiaeth. Mae F500 yn god JACS dilys a ddefnyddir lle nad oes angen manylu ymhellach, ond gellir adnabod pynciau'n fanylach wrth ddefnyddio digid arall nad yw'n sero, er enghraifft F520 Gwyddorau'r Gofod a Phlanedau ac yn fanylwch byth, F521 Gwyddorau'r Gofod ac F522 Gwyddorau'r Planedau. Yn aml mae angen ystyried yr holl godau neu'r holl fyfyrwyr sy'n disgyn o fewn prif bwnc, a gwneir hyn trwy gyfeirio ato gan ddefnyddio'r ddau nod cyntaf. Felly, mae F5 yn cyfeirio at bob pwnc o dan Seryddiaeth a chyfanswm y niferoedd sy'n astudio'r pwnc hwnnw. Ni fydd gan bob un ohonynt y cod F500. Yn yr un modd, mae F52 yn cyfeirio at yr holl Wyddorau Gofod a Phlanedau.

Ceir manylion llawn am JACS yn www.hesa.ac.uk/jacs.

Codau rhaglenni

Mae rhaglenni myfyrwyr yn aml yn cynnwys cyfuniad o bynciau ac felly ni ellir defnyddio un cod JACS i'w disgrifio. Yng nghasgliad data myfyrwyr AYAU, defnyddir dau ddull i ddelio â hyn. Yn gyntaf, mae JACS wedi'i ymestyn rhywfaint i alluogi i godau gael eu rhoi i raglenni integredig sy'n torri ar draws prif bynciau. Pan fo rhaglen mor eang yn disgyn o fewn grŵp pwnc unigol, gellir ei chodio gyda llythyren y grŵp a thri sero, er enghraifft byddai F500 yn codio rhaglen debyg yn y Gwyddorau Ffisegol. Gelwir hyn yn god generig, ac mae'n estyniad o JACS at ddibenion codio rhaglenni cyflawn i fyfyrwyr; ni ellir defnyddio codau generig mewn unrhyw ffordd arall, er enghraifft i godio modiwlau. Rhoddir y cod generig Y000 i raglenni sy'n trawstorri grwpiau pwnc, sy'n gyfwerth â pharhau i gydnabod yr angen am grŵp pwnc 'Cyfunol'. Mae'r ail ddull wedi'i lunio i ddisgrifio rhaglenni llai integredig sy'n aml yn cael eu galw'n raddau cydanrhydedd. Mae cofnod AYAU yn cynnwys tri maes cymhwyster a maes cydbwysedd sy'n ei gwneud yn bosibl i adrodd ymdriniaeth dau bwnc wedi'u cydbwyso, prif bwnc ac is-bwnc a thair rhaglen gytbwys.

Dosraniad

Yn ogystal, defnyddir gweithdrefn dosrannu. Wrth ddosrannu mae pob cyfrifiad, lle bo angen, yn cael ei rannu mewn modd sy'n adlewyrchu patrwm rhaglen hollt. Mae hyn yn gydweddol i gyfrifiadau CALl ond ni ddylid ei drysu â nhw gan fod ymraniadau ar gyfer dosraniad yn gonfensiynol yn hytrach nag yn seiliedig ar ddata.

Ar gyfer rhaglenni hollt nad ydynt yn cynnwys hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA), mae'r algorithm dosrannu fel a ganlyn:

50%:50% ar gyfer ymraniad cytbwys rhwng dau bwnc
66.667%:33.333% ar gyfer prif bwnc ac is-bwnc
33.333%:33.333%:33.333% ar gyfer ymraniad cytbwys rhwng tri phwnc.

Dosrennir 50% yn y maes pwnc ‘Addysg’ a’r 50% sy’n weddill yn unol â’r algorithm ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn ymgymryd â HCA ar gyfer myfyrwyr HCA ar lefel israddedig sydd wedi cofnodi pwnc arbenigol hefyd (myfyrwyr HCA eilaidd fel arfer). Lle na chofnodir pwnc heblaw addysg, neu os yw’r myfyriwr ar gwrs TAR, dosrennir 100% i’r maes pwnc Addysg.

Meysydd pwnc

Mae AYAU wedi diffinio 19 maes pwnc sy’n rhoi darlun eang defnyddiol o godau JACS er mwyn adrodd gwybodaeth yn ôl pynciau. Nid yw’r meysydd pwnc yn gorgyffwrdd ac mae’n yn cwmpasu’r ystod gyflawn o brif bynciau JACS. Heblaw’r angen i wahanu elfennau ‘Gwyddorau Mathemategol’ a ‘Cyfrifiadureg’ prif bwnc G9, fe’i mynegir yn ôl prif bynciau JACS.

Meysydd pwnc	**Cod JACS**
Meddygaeth a Deintyddiaeth	A
Pynciau a phroffesiynau’n gysylltiedig â Meddygaeth	B
Gwyddorau Biolegol	C
Gwyddoniaeth Filfeddygol	D1/2
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	D0/3/4/5/6/7/9
Gwyddorau Ffisegol	F
Gwyddorau Mathemategol	G0/1/2/3/90/91/99
Cyfrifiadureg	G4/5/6/7/92
Peirianneg a Thechnoleg	H, J
Pensaernïaeth, Adeiladu a Chynllunio	K
Astudiaethau Cymdeithasol	L
Y Gyfraith	M
Astudiaethau Busnes a Gweinyddiaeth	N
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	P
Ieithoedd	Q, R, T
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	V
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	W
Addysg	X
Cyfunol	Y

Atodiad B

Diffiniadau Data

Poblogaeth - Dechreuwyr

Poblogaeth gofrestru safonol AYAU a dyddiad dechrau'r cofrestriad yn y flwyddyn academaidd a bod y cymhwyster yr anelir amdano yn gymhwyster AU ffurfiol neu'n gredyd sefydliadol y gellir ei gyfrif tuag at gymhwyster AU ffurfiol.

Poblogaeth – CALl Dechreuwyr

Poblogaeth sesiynol AYAU a dyddiad dechrau'r cofrestriad yn y flwyddyn academaidd a bod y cymhwyster yr anelir amdano yn gymhwyster AU ffurfiol neu'n gredyd sefydliadol y gellir ei gyfrif tuag at gymhwyster AU ffurfiol .

Poblogaeth - Cymwysedigion

Poblogaeth cymhwyster a enillwyd AYAU neu gredydau sefydliadau y gellir eu cyfrif tuag at gymhwyster AU ffurfiol a ddyfarnwyd ym mhob blwyddyn academaidd ac nad yw'r myfyriwr yn fyfyriwr ymweliad na chyfnewid ac nad yw'n astudio y tu allan i'r DU trwy gydol y rhaglen astudio.

Prifysgol Agored

Dechreuwyr a chymwysedigion o gyrsiau yn y Brifysgol Agored sy'n byw yng Nghymru ac sy'n cael eu cynnwys yn y ffigurau ar gyfer SAUau yng Nghymru. Caiff y rheiny nad ydynt yn byw yng Nghymru na'r Alban eu cynnwys yn y ffigurau ar gyfer SAUau yn Lloegr.

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yn arwain at Statws Athro Cymwysedig – HCA (SAC)

Dyrennir dechreuwyr a chymwysedigion i'r maes pwnc HCA (SAC) pan fônt wedi'u codio ar gwrs addysgu cychwynnol neu gyn-gwasanaeth sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (TTCID=1) a bod y cymhwyster yr anelir amdano'n TAR Arferol neu TAR Erthygledig neu radd cyntaf â Statws Athro Cymwysedig/cofrestriad â'r Cyngor Addysgu Cyffredinol.

Cyfrwng Cymraeg

Ystyrir unrhyw ddechreuwyr neu gymwysedigion y darparwyd rhannau o'u rhaglenni astudio neu'r rhaglenni astudio cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg fel cyfrwng Cymraeg. Fell arall, mae dechreuwyr a chymwysedigion wedi'u cyfrif fel cyfrwng Saesneg.

Ansawdd y data

Yn 2003/03 codiwyd 2 o gymwysedigion mewn SAUau yng Nghymru i Wyddoniaeth Filfeddygol. Ail-godiwyd y rhain fel Amaethyddiaeth a phynciau cysylltiedig gan nad yw SAUau yng Nghymru'n cynnig Gwyddoniaeth Filfeddygol.

Yn 2002/03 codiwyd bod 27 o gymwysedigion rhan-amser mewn Meddygaeth a Deintyddiaeth wedi ennill Diploma AU (israddedig). Ail-godiwyd y rhain i ddiplomâu ôl-raddedig gan fod y ddarpariaeth Meddygaeth a Deintyddiaeth ran-amser yn ôl-raddedig.

Rhaglen Ysgoloriaeth Cysylltiol ym Mhrifysgol Morgannwg

Mae'r rhaglen ysgoloriaeth cysylltiol yn bodoli er mwyn annog a chaniatáu aelodau'r gymuned i gofrestru i astudio modiwlau er mwyn ennill profiad cyntaf o addysg uwch ac i fyfyrwyr presennol (llawn amser a rhan-amser) ymgymryd â modiwlau yn ychwanegol at y rheiny sy'n rhannau mandedig o'u dyfarniadau.

Gall myfyrwyr cysylltiol ymgymryd â hyd at 40 o gredydau ar lefel israddedig neu ôl-raddedig mewn unrhyw flwyddyn academaidd.

Gall myfyrwyr cysylltiol:

- fod yn gofrestredig ar gyrsiau mewn prifysgol a bydd unrhyw gredydau a enillir yn cyfrif tuag at ddyfarniad ar gyfer dysgu achrededig blaenorol, os yw'n briodol ac os yw hynny'n gyson â rheoliadau'r dyfarniad a/neu'r corff proffesiynol;
- cofrestru ar fodiwlau neu ddyfarniadau sy'n arwain neu'n cyfrannu at gymhwyster proffesiynol.

Ni all myfyrwyr cysylltiol:

- ddefnyddio'r dyfarniad fel dull o ail-sefyll credydau sy'n rhan o ddyfarniad arall mewn prifysgol.

Nodiadau eraill

Nid yw'r canrannau a ddyfynnir yn cynnwys gwerthoedd anhysbys.

Mae'r holl gymariaethau rhwng 2002/03 a 2005/06 oni nodir yn wahanol.

Mae'r ffigurau a ddosrennir yn ôl pwnc wedi'u talgrynnu felly nid yw'r holl rifau'n adio i'r cyfansymiau perthnasol.

Dechreuwyr i a Chymwysedig yn ol maes pwnc a rhyw 2005/06

	Cyfanswm Dechreuwyr			Cyfanswm Cymwysedigion		
Maes Pwnc	Gwryw	Benywaidd	% Benywaidd	Gwryw	Benywaidd	% Benywaidd
Meddygaeth ac Deintyddiaeth	621	706	53%	437	497	53%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaet	799	4,706	85%	563	3,197	85%
Gwyddorau Biolegol	2,034	2,397	54%	1,662	1,722	51%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	208	289	58%	155	199	56%
Gwyddorau Ffisegol	1,184	856	42%	836	630	43%
Gwyddorau Mathemategol	215	174	45%	138	112	45%
Cyfrifiadureg	1,770	514	22%	1,253	362	22%
Peirianneg a Thechnoleg	3,439	432	11%	2,421	313	11%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	805	333	29%	509	251	33%
Astudiaethau Cymdeithasol	1,656	3,224	66%	1,166	2,051	64%
Y Gyfraith	834	1,207	59%	577	965	63%
Business & Administrative Studies	4,403	4,444	50%	3,177	3,209	50%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	470	823	64%	314	520	62%
Ieithoedd	2,315	3,898	63%	1,567	2,634	63%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	1,532	1,443	49%	816	950	54%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	1,810	2,258	56%	1,040	1,310	56%
Addysg	1,656	3,397	67%	728	1,590	69%
Cyfunol	1,326	2,279	63%	601	1,165	66%
Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol	661	1,665	72%	571	1,500	72%
Cyfanswm	27,738	35,045	56%	18,531	23,176	56%

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr AYAU 2005/06

Dechreuwyr i a Chymwysedig yn ol maes pwnc a ethnigrwydd 2005/06

	Cyfanswm Dechreuwyr					Cyfanswm Cymwysedigion				
Maes Pwnc	Gwyn	BME*	% BME*	Anhysbys	% Anhysbys	Gwyn	BME*	% BME*	Anhysbys	% Anhysbys
Meddygaeth ac Deintyddiaeth	760	399	34%	168	13%	560	262	32%	112	12%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaet	4,894	365	7%	247	4%	2,582	146	5%	1,033	27%
Gwyddorau Biolegol	4,005	245	6%	182	4%	3,069	173	5%	143	4%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	448	23	5%	26	5%	307	25	7%	22	6%
Gwyddorau Ffisegol	1,846	102	5%	91	4%	1,271	64	5%	131	9%
Gwyddorau Mathemategol	318	57	15%	14	3%	199	25	11%	26	10%
Cyfrifiadureg	1,874	318	15%	92	4%	1,100	170	13%	345	21%
Peirianneg a Thechnoleg	3,042	557	15%	273	7%	1,953	340	15%	441	16%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	944	152	14%	42	4%	573	110	16%	77	10%
Astudiaethau Cymdeithasol	4,140	425	9%	316	6%	2,621	256	9%	340	11%
Y Gyfraith	1,500	373	20%	168	8%	1,147	220	16%	174	11%
Business & Administrative Studies	5,578	2,469	31%	800	9%	3,710	1,540	29%	1,137	18%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	1,032	185	15%	76	6%	706	87	11%	40	5%
Ieithoedd	5,222	455	8%	535	9%	2,859	190	6%	1,152	27%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	2,411	297	11%	268	9%	1,487	127	8%	152	9%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	3,789	189	5%	90	2%	2,062	95	4%	193	8%
Addysg	4,441	188	4%	424	8%	1,997	75	4%	246	11%
Cyfunol	3,178	114	3%	313	9%	1,616	40	2%	110	6%
Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol	2,201	66	3%	59	3%	1,975	47	2%	49	2%
Cyfanswm	51,624	6,978	12%	4,181	7%	31,794	3,991	11%	5,922	14%

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr AYAU 2005/06

* BME: Pobl Dduon a Lleiafrifoedd ethnig

Dechreuwyr i a Chymwysedig yn ol maes pwnc ac anabledd 2005/06

	Cyfanswm Dechreuwyr					Cyfanswm Cymwysedigion				
Maes Pwnc	Dim yn anabl	Anabl	% Anabl	Anhysbys	% Anhysbys	Dim yn anabl	Anabl	% Anabl	Anhysbys	% Anhysbys
Meddygaeth ac Deintyddiaeth	1,302	25	2%	0	0%	920	14	1%	0	0%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaet	5,175	220	4%	110	2%	2,663	158	6%	940	25%
Gwyddorau Biolegol	4,004	276	6%	151	3%	3,093	203	6%	89	3%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	456	38	8%	*	1%	309	34	10%	+	3%
Gwyddorau Ffisegol	1,759	153	8%	127	6%	1,188	117	9%	161	11%
Gwyddorau Mathemategol	294	16	5%	78	20%	197	11	5%	42	17%
Cyfrifiadureg	1,952	163	8%	170	7%	1,111	84	7%	419	26%
Peirianneg a Thechnoleg	3,628	150	4%	94	2%	2,251	97	4%	387	14%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	1,069	63	6%	6	1%	662	33	5%	65	9%
Astudiaethau Cymdeithasol	4,057	501	11%	322	7%	2,498	246	9%	473	15%
Y Gyfraith	1,881	98	5%	61	3%	1,371	64	4%	107	7%
Business & Administrative Studies	8,352	259	3%	236	3%	5,357	157	3%	872	14%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	1,236	55	4%	*	0%	787	34	4%	12	1%
Ieithoedd	5,796	233	4%	184	3%	3,198	122	4%	881	21%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	2,559	263	9%	154	5%	1,548	137	8%	81	5%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	3,597	453	11%	18	0%	1,842	326	15%	183	8%
Addysg	4,634	256	5%	163	3%	1,891	131	6%	296	13%
Cyfunol	1,722	452	21%	1,431	40%	1,144	280	20%	342	19%
Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol	2,211	115	5%	0	0%	1,974	95	5%	*	0%
Cyfanswm	55,685	3,790	6%	3,308	5%	34,004	2,342	6%	5,361	13%

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr AYAU 2005/06

Yn y tabl hwn mynegwyd pob gwerth sy'n llai na 5 fel *
Mae gwerthoedd sy'n fwy na 4 sydd wedi cael eu tynnu i atal ailgyfrifo gwerthoedd sy'n llai na 5 wedi cael eu mynegi fel +

Dechreuwyr i a Chymwysedig yn ol maes pwnc a grŵp oed 2005/06

	Cyfanswm Dechreuwyr							
Maes Pwnc	O dan 21	21 i 24	25 i 29	30 a drosodd	% O dan 21	% 21 i 24	% 25 i 29	% 30 a drosodd
Meddygaeth ac Deintyddiaeth	341	115	230	640	26%	9%	17%	48%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth	1,080	684	745	2,990	20%	12%	14%	54%
Gwyddorau Biolegol	2,616	648	330	831	59%	15%	7%	19%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	229	88	51	126	46%	18%	10%	26%
Gwyddorau Ffisegol	1,017	408	231	383	50%	20%	11%	19%
Gwyddorau Mathemategol	252	52	26	59	65%	13%	7%	15%
Cyfrifiadureg	871	555	319	532	38%	24%	14%	23%
Peirianneg a Thechnoleg	1,642	1,028	475	721	42%	27%	12%	19%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	284	324	201	327	25%	29%	18%	29%
Astudiaethau Cymdeithasol	1,537	737	574	2,028	32%	15%	12%	42%
Y Gyfraith	950	553	208	330	47%	27%	10%	16%
Business & Administrative Studies	2,333	2,710	1,479	2,205	27%	31%	17%	25%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	506	373	182	230	39%	29%	14%	18%
Ieithoedd	3,067	969	541	1,582	50%	16%	9%	26%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	1,034	268	200	1,449	35%	9%	7%	49%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	2,365	620	271	798	58%	15%	7%	20%
Addysg	672	482	595	3,234	13%	10%	12%	65%
Cyfunol	248	285	330	2,719	7%	8%	9%	76%
Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol	592	1,065	335	333	25%	46%	14%	14%
Cyfanswm	21,635	11,962	7,321	21,517	35%	19%	12%	34%

	Cyfanswm Cymwysedigion							
Maes Pwnc	O dan 21	21 i 24	25 i 29	30 a drosodd	% O dan 21	% 21 i 24	% 25 i 29	% 30 a drosodd
Meddygaeth ac Deintyddiaeth	3	273	145	511	0%	29%	16%	55%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaeth	259	781	519	2,195	7%	21%	14%	58%
Gwyddorau Biolegol	1,240	1,121	338	684	37%	33%	10%	20%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	77	141	44	91	22%	40%	13%	26%
Gwyddorau Ffisegol	400	576	211	279	27%	39%	14%	19%
Gwyddorau Mathemategol	77	105	21	48	31%	42%	8%	19%
Cyfrifiadureg	293	659	241	418	18%	41%	15%	26%
Peirianneg a Thechnoleg	572	1,203	382	576	21%	44%	14%	21%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	88	284	168	220	12%	37%	22%	29%
Astudiaethau Cymdeithasol	718	898	407	1,194	22%	28%	13%	37%
Y Gyfraith	486	654	180	222	32%	42%	12%	14%
Business & Administrative Studies	1,121	2,546	1,172	1,497	18%	40%	18%	24%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	199	351	96	188	24%	42%	12%	23%
Ieithoedd	2,295	912	280	675	55%	22%	7%	16%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	491	389	107	776	28%	22%	6%	44%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	663	1,120	204	362	28%	48%	9%	15%
Addysg	183	264	281	1,589	8%	11%	12%	69%
Cyfunol	68	103	114	1,474	4%	6%	6%	84%
Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol	247	1,147	341	336	12%	55%	16%	16%
Cyfanswm	9,479	13,527	5,250	13,335	23%	33%	13%	32%

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr AYAU 2005/06

Nid oedd oedran nifer bach o ddechreuwyr a chymwysedigion yn hysbys; ni ddangosir y ffigurau

Dechreuwyr i a Chymwysedig yn ol maes pwnc a chyfrwng dysgu 2005/06

	Cyfanswm Dechreuwyr			Cyfanswm Cymwysedigion		
Maes Pwnc	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	%Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Cymraeg	Cyfrwng Saesneg	%Cyfrwng Cymraeg
Meddygaeth ac Deintyddiaeth	0	1,327	0%	0	934	0%
Pynciau a Phroffesiynau'n gysylltiedig â Meddygaet	18	5,488	0%	0	3,760	0%
Gwyddorau Biolegol	30	4,402	1%	*	3,383	0%
Amaethyddiaeth a Phynciau Cysylltiedig	*	493	1%	0	354	0%
Gwyddorau Ffisegol	14	2,025	1%	7	1,459	0%
Gwyddorau Mathemategol	*	387	0%	*	248	1%
Cyfrifiadureg	7	2,277	0%	10	1,605	1%
Peirianneg a Thechnoleg	*	3,870	0%	0	2,734	0%
Pensaernïaeth, adeiladu a Chynllunio	*	1,137	0%	0	760	0%
Astudiaethau Cymdeithasol	209	4,671	4%	40	3,177	1%
Y Gyfraith	52	1,989	3%	14	1,527	1%
Business & Administrative Studies	14	8,833	0%	5	6,381	0%
Cyfathrebu Torfol a Dogfennaeth	9	1,284	1%	10	824	1%
Ieithoedd	618	5,595	10%	209	3,992	5%
Astudiaethau Hanesyddol ac Athronyddol	64	2,911	2%	41	1,725	2%
Celfyddydau Creadigol a Dylunio	72	3,996	2%	59	2,292	3%
Addysg	327	4,727	6%	62	2,256	3%
Cyfunol	172	3,433	5%	106	1,660	6%
Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol	492	1,834	21%	368	1,703	18%
Cyfanswm	2,105	60,678	3%	933	40,774	2%

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr yr AYAU 2005/06

Yn y tabl hwn mynegwyd pob gwerth sy'n llai na 5 fel *

Cyfrwng Cymraeg – addysgwyd peth neu'r cyfan o flwyddyn y rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg
Cyfrwng Saesneg - nid addysgwyd dim o flwyddyn y rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg